

CLONC

www.clonc.co.uk

ISSN 1753-1071



9 771753 107001 >

Rhifyn 298 - 60c
Tachwedd 2011

Papur Bro ardal plwyfi: Cellan, Llanbedr Pont Steffan, Llanbedr Wledig, Llanfair Clydogau, Llangybi, Llanllwni, Llanwenog, Llanwnnen, Llanybydder, Llanycrwys ac Uwch Gaeo a Phencarreg

**Anrhydedd
mawr i
Aneurin**



Tudalen 10

**Hannah
Cwmnant
yn 100 oed**



Tudalen 21

**Canon
Wynzie
yn dathlu**



Tudalen 22

POBL HAEL YN CYFRANNU



Tim cyntaf Clwb Rygbi Llanbedr yn derbyn crysau newydd oddi wrth y noddwyr newydd: Carpedi Gwyn Lewis Cyf, Gary Davies Cyfrifwyr PJE, Beca Russell Cyfri, Mark Saunders LAS Recycling ac Emyr Jones a Kevin Jones, Teifi Forge Cyf.



Ar ôl sioe lwyddiannus eleni eto yng Nghwmsychbant, trosglwyddodd Gwyn Williams, Llywydd y Dydd, sic am £6,500 i Ros Jones, cynrychiolydd Ambiwylans Awyr Cymru. Yn y llun (o'r chwith) - Sian Jones, Cyd-ysgrifennydd; Gwyn Williams; Wendy Jenkins, Cyd-ysgrifennydd; Hefin Jenkins, Cadeirydd; Ros Jones, a John Jones, Trysorydd.



Emyr ac Eirian Jones, ac Enid Jenkins yn cyflwyno sicciau o £1650.00 yr un i Ros Jones, Ambiwylans Awyr Cymru a Liz Pugh, Ffagl Gobaith, yn dilyn dathliadau Pen-blwydd Emyr ac Enid yn 60 oed, a Phriodas Ruddem Emyr ac Eirian. Diolch i bawb am eu rhoddion caredig.



Llun rhai o ddisgyblion Ysgol Ffynnonbedr sydd wedi paratoi bocsys o anrhegion Nadolig i'w danfon at blant y trydydd byd.

Straeon yr ardal



Disgyblion ysgol Llambed a fu'n cyflwyno gwasanaeth i'r ymwelwyr o wledydd tramor yn ddiweddar. Yn y llun gwelir cynrychiolwyr o wledydd Sbaen, yr Eidal, Awstria, Ffrainc, Iwerddon a Chymru.



Aduniad Ysgol Sul Brondeifi

Prynhawn Sul y 9fed o Hydref roedd y capel yn gyfforddus lawn i wasanaeth aduniad y disgyblion a fu yn mynychu'r Ysgol Sul ers 1964, sef y flwyddyn y daeth y Parch. Goronwy Evans yn weinidog ym Mrondeifi. Syniad Heini Thomas, athrawes bresennol yr Ysgol Sul, oedd cynnal y diwrnod a chyda cydweithio rhwng aelodau'r capel a swyddogion blaenorol a phresennol yr Ysgol Sul bu y diwrnod yn llwyddiant mawr. Roedd y capel wedi ei wisgo yn hardd ac roedd lluniau yn cynrychioli'r cyfnod wedi eu gosod o amgylch muriau'r capel.

Danfonwyd gwahoddiadau i'r holl ddisgyblion perthnasol ac ynghyd â'r rhai a ymatebodd yn gadarnhaol daeth yr ymddiheuriadau canlynol i law cyn yr achlysur hefyd:

Deian a Sara Non Thomas, Llanfynydd; Gareth, Alun ac Anita Davies (Castle Green gynt); Sion a Dion Hughes, Ceinewydd; Olivia Wilson, Llandysul; Justin Jones, Ffarmers; Heledd Harmon; Helen Davies, Gareth James; Iona Joseph ac Anwen James (Maesteg, Cwmann gynt); Eleri Brown, Aberystwyth; Elaine Moore, Felinfach; Ann Ewart, Cwmann a Robert Ewart, Caerdydd; Mair a Heddwen (Siop Cwmann gynt); Tony Morgan, Pen-y-bont ar Ogwr; Dr Sian Lloyd, Llewelyn a Mali, Llantrisant; Eirian Jones, Meinir, Meirianwen ac Eirion Jones Williams, Cysgod y Pîn; Bethan James, Caerffili (Talfoel gynt); Gareth Jones, Caerdydd (V&M gynt).

Roedd yna naws cartrefol iawn drwy gydol y gwasanaeth gan ail-fyw rhai o'r hen draddodiadau megis cydadrodd y Pwnc a Gweddi'r Arglwydd. Cyhoeddwyd yr emynau gan Rhian Williams, (Gerlan gynt); Gruffydd Thomas, Deffrobani; Meinir Douglas (Tyllwyd gynt); Ioan Wyn Evans (Y Mans gynt).

Bu aelodau presennol yr Ysgol Sul yn ein diddanu drwy ganu caneuon ac emynau addas gyda Heini Thomas, eu hathrawes, yn cydlynu'r eitemau yn effeithiol a phroffesiynol iawn. I orffen cyfraniad yr Ysgol Sul, cafwyd gweddi fach gan Hana Davies. Diolchodd y gweinidog i Heini, Steffanie a Kimberley am eu gwaith arbennig gyda'r plant.

Ynghyd â'r ymddiheuriadau a restrwyd uchod, darllenodd Mr Evans lythyron a ddaeth i law oddi wrth Sarah Lloyd Davies (Culmore gynt), Mair Crouch, Glasgow (Station Terrace gynt), a Gareth James, Llanbadarn (Maesteg gynt). Cafwyd amser difyr iawn yn gwrando ar Margaret Jones, Glanhelen a Trefina Jones (Hathren gynt) yn sôn am eu cyfnod yn yr Ysgol Sul ac er mai ond rhyw bymtheg i ugain mlynedd, mwy neu lai, oedd rhwng cyfnod y naill a'r llall, yr hyn a oedd yn drawiadol oedd cynnwys amrywiol eu hatgofion. Meinir Jones, Hendai oedd yr organyddes a Delyth Jones, Ffosyffin a fu'n gyfrifol am y casgliad a fydd yn cael ei rannu rhwng elusen o ddewis yr Ysgol Sul a'r Ysgol Sul ei hun.

Diolchodd y gweinidog i bawb am eu presenoldeb ac i bawb a fu'n gysylltiedig â threfnu y diwrnod arbennig yma. Gwahoddwyd pawb i'r festri i barhau gyda'r cymdeithasu tra'n mwynhau'r wled o de a baratowyd gan wragedd y capel. Roedd cacen hyfryd â llun Brondeifi ar y wyneb wedi ei pharatoi gan Ceinwen Jenkins, a'i dwy wyres, Hanna a Megan a gafodd yr anrhydedd o'i thorri. Diolchwyd i bawb a fu'n gyfrifol am baratoi'r wledd mewn geiriau addas iawn gan Hefin Jones.

Pwy yw pwy?

Golygydd:

Tachwedd a Rhagfyr Elaine Davies, Penynant, Llanwnnen 480526
e-bost: golygydd@clonc.co.uk

Tim Golygyddol: Elaine Davies, Dylan Lewis, Rhian Lloyd,
Marian Morgan a Delyth Morgans

Dylunydd y mis: Nia Davies, Maesglas, Drefach 480015

Swyddog Dosbarthu Eifion Davies, Afallon, Drefach 480590
e-bost: bedwyr@btopenworld.com

Teipyddion Nia Davies, Maesglas, Drefach 480015
Joy Lake, Llambled

Gohebwyr Lleol:

Cellan Alwen Edwards, Awel Teifi 421001

Cwmann Gwyneth Morgan, Llety'r Dderwen 422922

Cwmsychbant Mary Davies, Maesglas, Drefach 480015

Llanwenog/Drefach Mary Davies neu Eifion Davies

Ffaldybrenin/Ffarmers Elfyn Davies, Troed y bryn, Ffarmers 01558 650507

Gorsgoch Eiddwen Hatcher, Tafarn Cefnhafod 434238

Llambled Janet Evans, Haulfryn 422856

Llanfair Dan ac Aerwen Griffiths, Pengarn 493407

Llangybi a Betws Mair Spate, Tŷ Capel Maesffynnon 493325

Llanllwni Dewi Davies, Glanafon 480218

Llanwnnen Meinir Ebbsworth, Brynamllwg 480453

Llanybydder Menna Jones, Ceginau Lifestyle 480257

Pencarreg Lynda Thomas, Dolgwm Uchaf 422270

Beth yw beth?

Bwrdd Busnes:

Cadeirydd Dylan Lewis, Tŷ Cerrig, Cwmann 422349
e-bost: cadeirydd@clonc.co.uk

Is-Gadeirydd Marian Morgan, Glasfan, Drefach 480490

Ysgrifenyddes Mary Davies, Maesglas, Drefach 480015

Trysorydd Nia Davies, Maesglas, Drefach 480015

e-bost: ysgrifennydd@clonc.co.uk

Ceidwad y Camera Janet Evans, Haulfryn, Llambled 422856

Ffotograffydd Tim Jones, Llainwen, Llambled 422644

Argraffwyr Gwasg Aeron, Aberaeron 01545 570573

Gwerthfawrogi gwaith pob gwirfoddolwr a sicrhodd ymddangosiad y rhifyn hwn o Clonc. Os hoffai eraill ymuno â'r tîm, cysylltwch ag aelod o'r bwrdd busnes.

- Sicrhewch newyddion eich ardal chi yn Clonc. Peidiwch â meddwl y bydd rhywun arall yn gwneud. Mae'n rhy hwyr i feio neb os nad yw rhywbeth yn ymddangos yn CLONC.

- Ewch â'ch newyddion at eich gohebydd lleol, neu ebostio golygydd@clonc.co.uk

- E-bostiwch eich eitemau ar gyfer y dyddiadur i ysgrifennydd@clonc.co.uk

- Mae croeso i chi ddefnyddio eich camera eich hun. Defnyddiwn luniau o gamera cyffredin lliw, a du a gwyn. Ni fyddwn yn dychwelyd lluniau os na fyddwch wedi gwneud cais am hyn ar gefn y llun. Croesawn luniau digidol ar CD, cofbin USB, ac e-bost cadeirydd@clonc.co.uk

- Danfonwch lun o'ch ffôn symudol i 07837 447122 (bydd eich cwmni ffôn yn codi tâl am hyn).

- Sicrhewch fod gennych ganiatad rhieni cyn tynnu llun plant i'w gwynys yn Clonc. Rhoddir rhifynnau Clonc ar y wefan maes o law.

- Dyma gyfeiriad gwefan Clonc: www.clonc.co.uk os am fwy o wybodaeth.

- Beth am ddod yn ffrind i Clonc ar wefan gymdeithasol facebook: www.facebook.com/clonc

- Gofynnwn am dâl o £5.00 am roi "Diolch" yn y papur.

- Gellir tanysgrifio i Clonc am £17.50 yn unig y flwyddyn. Cysylltwch â'r ysgrifenyddes.

- Nid yw'r golygydd o reidrwdd yn cytuno ag unrhyw farn yn y papur hwn.

Siprys

Campus wir!

Mae ein tîm rygbi wedi gwneud enw da iddyn nhw eu hunain yn Seland Newydd ac wedi llwyddo i roi Cymru, yn wir, ar fap rygbi'r byd. Maent wedi disgleirio ar y maes ac fel cenhadon oddi ar y cae. Trueni na lwyddodd y gwroniaid i chwarae yn y rownd derfynol.

Cau Ysgolion

Yn naturiol, mae hwn yn destun poenus iawn i rieni Llanwnnen a Llanwenog. Yn naturiol, nid ydynt am ymuno â Chwrtnewydd am un rheswm syml – nid ydynt am weld eu hysgol hwy yn cau. Ond os y daw hi i hynny, ni fydd hi'n ddiwedd y byd. Rhaid edrych o'n cwrmpas a chofio am y llwyddiant a ddaeth wrth greu Ysgol y Dderi yn Llangybi. Mae digonedd o resymau yn erbyn yr uno ac mae'r un faint dros yr uno. Rhaid i ni gofio mai ceisio gweithredu gofynion Caerdydd mae'n Cyfarwyddwr Addysg.

Llwynogod – o ble?

Mae yna le i greu fod rhai o llwynogod yr ardal wedi cyrraedd heb eu dogfennau cywir! Mae yna llwynog yn ardal Llanwnnen sy'n hollol wahanol i'w gymdogion. Mae'n bell o fod yn goch ac yn edrych yn hollol dywyll. Dywedodd ffermwraig leol fod y llwynog yn dod heibio yn rheolaidd a bod daeargi'r fferm yn mynd yn hollol wyllt. Wedi gollwng y ci yn rhydd, mae'n mynd ar ôl y llwynog a hwnnw wedyn yn rhedeg o flaen y ci am ychydig cyn stopio a dechrau sgrechen. Y ci wedyn yn cael ofn

ac yn rhedeg am adre, ac i goroni'r cyfan, y llwynog yn cerdded yn hamddenol y tu ôl i'r ci. Nid llwynog o Gardi yw hwn, dybiaf i!

Ffwlburt.

Faint ohonoch chi sydd wedi gweld yr anifail prin yma? Faint ohonoch chi sy'n gwybod beth yw ffwlburt? Yn Saesneg Polecat yw'r enw. Anifail o faint ffured (Ferret) yw e, ond ei fod yn llawer mwy tywyll. Gwelodd cymydog un yn yr ardd a meddwl fod rhywun wedi colli ffured. Llwyddodd i gael llun ohono ac yn wir ffwlburt oedd e. Mae'r anifail yn hoff o ddal cwningod, llygod, brogaod, adar a mwydod. Fe gollodd Ysgol y Dolau ŵydd i'r ffwlburt. Gwelwyd yr ŵydd ar ganol y cae chwarae a dim ond ei gwddf wedi'i fwyta. Daliwyd y gwalch a chafodd drip i ben mynydd Llanllwni. Tybed ydy hwn yn ddisgynydd iddo?

'Hummingbird Hawkmoth'

'Gwalchwyfyn â thrwyn fel eryr' – do, fe gawsom yr ymwelydd yma yn ein gardd yn ystod y tywydd godidog ddechrau'r mis. Gwelsom y pryfyn dieithr, mwy o faint na gwenynen, yn mynd o flodyn i flodyn gan hofran am ychydig eiliadau wrth sugno neithdar gyda'i dafod hir o'r blodyn. Rhaid oedd mynd i'r llyfr natur a chael gafael yn y gwyfyn. Dywedir yn y llyfr fod hwn yn mwynhau gerddi â llawer o flodau. Dylasech weld wyneb y wraig wrth ddarllen hynny!

Hwyl!

Cloncy

Gohebiaeth Clonc



Annwyl Gyfaill,

Mae elusen Ffagl Gobaith newydd lansio ymgyrch codi arian Newid Mân, Newid Mawr! gan ofyn i bobl yr ardal gasglu ynghyd yr arian mân sy'n llechu o amgylch y tŷ, yn y car, ar y ddesg yn y swyddfa, i lawr ochr y soffâ, ac yn y blaen, a dod â chymaint o'r darnau arian hyn â phosib i un o swyddfeydd Ffagl Gobaith neu i'n siop yn y Ffynnon Haearn / Chalybeate St., Aberystwyth rhwng nawr a chanol mis Rhagfyr. Bydd yr arian a godir yn sicrhau bod y gwasanaeth Hosbis yn y Cartref ar gael i bobl yr ardal sydd angen y ddarpariaeth werthfawr yma.

I'r rheiny ohonoch sy'n hoffi tynnu lluniau, rydym yn gofyn i chi greu delwedd ffotograffig o'ch arian mân a'i danfon at sharon.woodcock@thebeaconofhope.org.uk <<mailto:sharon.woodcock@thebeaconofhope.org.uk>>. Hefyd, cysylltwch â Sharon os am fod yn un o'n harweinwyr codi arian mân (drwy drefnu casglu arian mân gan eich ffrindiau), neu os hoffech i ni ddod i nôl eich casgliad chi.

Eisoes, mae un busnes blaenllaw yng Ngheredigion yn cefnogi'r ymgyrch hon ond rydym angen i lawer mwy o fusnesau, sefydliadau ac unigolion wneud yr un fath. Mae'r holl arian a godir gan Ffagl Gobaith yn aros yng Ngheredigion a Gogledd Powys gyda staff a gwirfoddolwyr ymroddedig yn gweithio yn y gymuned o'n swyddfeydd yn Aberystwyth, Aberteifi a Machynlleth.

Os medrwc ledaenu'r neges hon ymysg eich ffrindiau, gyda'n gilydd gallwn sicrhau bod newid mân yn gwneud newid mawr.

Yn gywir iawn

Tim Codi Arian Ffagl Gobaith

Nid yw'r golygydd o reidrwdd yn cytuno â'r farn a adlewyrchir yn mhob un o erthyglau CLONC.

Cydnabyddir cefnogaeth



BWRDD YR IAITH
GYMRAEG • WELSH
LANGUAGE BOARD

www.bwrdd-yr-iaith.org.uk

HYSBYSEBU YN CLONC

"Mae mwy a mwy yn gweld gwerth mewn hysbysebu yn y Papur Bro." Amcangyfrifir bod tua 3,000 o bobl yn darllen CLONC.

£10.00 am floc bach.

£40.00 am chwarter tudalen.

£60.00 am flwyddyn o flociau bach.

Cysylltwch ag Ysgrifenyddes CLONC am ragor o wybodaeth:

01570 480015 neu ysgrifennydd@clonc.co.uk



TACHWEDD

- 4 Noson Tân Gwyllt yn Rhydau, Drefach am 7.00y.h.
- 4 Cinio a Dawns Cymdeithas Amaethyddol Llanbedr Pont Steffan yn y Coleg, Llambled am 7.30 yh. Tocynnau - £20.00. Cysylltwch â Gareth Russell - 01570 423 396. Croeso cynnes i bawb.
- 5 Noson o Dân Gwyllt a Thwmpath gyda Erwyd Howells yn galw a Breian wrth yr organ yn Neuadd Gymuned Llanddewi Brefi.
- 7 Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol Cymdeithas Amaethyddol Llanbedr Pont Steffan am 7.30y.h, yng Ngwesty'r Llew Du, Llanbedr Pont Steffan. Croeso i aelodau hen a newydd.
- 10 + 12 Eisteddfod C.Ff.I. Ceredigion ym Mhafiliwn Pontrhydfendigaid.
- 12 Gŵyl Cerdd Dant Cwm Gwendraeth.
- 12 Ffair Nadolig Cylch Meithrin Llanllwni yn Festri Capel Nonni o 1 - 4y.p.
- 15 Cyfarfod Aelwyd yr Urdd Llanbedr Pont Steffan 7.00 - 8.15y.h.
- 18 Diwrnod Plant Mewn Angen.
- 18 Cyngerdd Dathlu 70 mlynedd Clwb Llanddewi Brefi yn Neuadd Gymuned Llanddewi Brefi.
- 18 Sioe ffasiynau Cylch Meithrin Coedmor yn Neuadd St.Iago, Cwmam am 7.30 y.h. Tocynnau £10 yr un gan gynnwys gwin a danteithion. Llywydd y noson fydd Mrs Catherine Woodward. Tocynnau ar gael o'r Cylch neu o Duet Lan Llofft.
- 19 Eisteddfod C.Ff.I. Cymru ym Mhafiliwn Rhyl.
- 23 Lansio Llyfr y Dathlu C.Ff.I. Ceredigion yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru Aberystwyth.
- 25 + 26 Yr wythfed Ffair Grefftau flynyddol yn Neuadd y Coroniaid, Pumsaint. Raffl fawr a bwyd ar gael. Elw at Gancr y Fron Cymru. Gwener 2-7y.h. a Sadwrn 10 - 4y.p.
- 26 Arwerthiant Blynnyddol Seion, Cwrtnewydd am 3:00y.p. Croeso cynnes i bawb.
- 27 Cymanfa Garolau yr Urdd yng Nghapel Brondeifi am 5.30y.h.
- 29 Cyfarfod Aelwyd yr Urdd Llanbedr Pont Steffan 7.00 - 8.15y.h.

RHAGFYR

- 3 Cino Dathlu 70 mlynedd Clwb Llanddewi Brefi yn Neuadd Lloyd Thomas Coleg Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant, Llanbedr Pont Steffan. Croeso Cynnes i Aelodau, Cyn-aelodau a Ffrindiau y Clwb i ymuno. Manylion pellach wrth Meinir Green ar 01570 423 135.
- 3 - 10 Panto Nadolig Theatr Felinfach.
- 4 Cymanfa Ganu Dathlu C.Ff.I. Ceredigion yn 70 oed yng Nghapel Tabernacl, Aberaeron.
- 5 Cynhelir Plygain Traddodiadol yng Nghapel Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant (Campws Llambled), am 7.00y.h. Croeso cynnes i bawb.
- 7 Noson o Goginio yn Eglwys Llanwenog i ddechrau am 7.30y.h. Elw tuag at yr ysgol.
- 12 Cynhelir Bore Coffi yn Neuadd Sant Iago, Cwmam i ddechrau am 10.30y.b. Bydd yr elw yn mynd tuag at Eglwys Sant Padrig, Pencarreg.
- 12 Cylch Meithrin Llanllwni yn trefnu Bingo Nadolig yn Nhafarn y Belle, Llanllwni.
- 14 Cyngerdd y Tri Thenor yn Theatr Felinfach am 7:30y.h.
- 17 Carol Cerdd a Chân yn Eglwys Llanbedr Pont Steffan. Elw tuag at Gymorth Cristnogol.

EBRILL 2012

20 + 21 Eisteddfod Gadeiriol Penrhyn-coch.

CIC! yn ennill Tlws!

Nos Sadwrn, Hydref 8fed cyflwynwyd Tlws Coffa Robina i Gwmni Ieuenctid Ceredigion (CIC!), sef cwmni Theatr Felinfach ar gyfer pobl ifanc Ceredigion 14-18 oed. Aeth Swyddog Ieuenctid y theatr, Anna ap Robert, i Grymych i dderbyn y tlws ar ein rhan.




Curo Pencampwr Byd

Taflu Dartiau

Gwahoddwyd cyn bencampwr dartiau'r byd gan chwaraewyr dartiau Llambled i ddangos ei sgiliau yn y Clwb Rygbi. Trefnwyd bod 16 o ddartwyr y dref yn ymgiprys â Bob Anderson, Pencampwr Dartiau'r Byd yn 1988. O'r 16, dim ond un a lwyddodd i'w guro, sef Ceri Thomas o Lanybydder.

Yn ddiweddar yn y Clwb Pêl Droed, cyflwynwyd elw'r noson o £175 - a chyfraniad cyfatebol o £175 trwy haelioni Lloyds TSB Foundation sef £ am £ - i Carol Jones ar ran Ambiwlans Awyr Cymru.



Yn y llun, gwelir Martin Owens, trysorydd dartiau Llambled, Carol Jones a Bedwyr Davies, yr ysgrifennydd. Bedwyr oedd yn gyfrifol am sicrhau cyfraniad Banc Lloyds at yr achos. Dymuna'r dartwyr ddiolch am bob cymorth yn ystod y noson.



O'r Cynulliad

gan Elin Jones

Roedd Hydref yn fis prysur gyda gwahanol bynciau o bwys i Geredigion yn cael eu trafod yn y Senedd a nifer o ddigwyddiadau'n cael eu cynnal ar hyd a lled y sir.

Un o'r materion pwysicaf a godais yn y Senedd oedd yr angen i fyrddau iechyd ymgynghori'n onest ac yn dryloyw gyda phobl am unrhyw gynlluniau i newid y ddarpariaeth iechyd ar hyn o bryd. Roedd y Prif Weinidog, Carwyn Jones AC, yn cytuno â mi bod angen sicrhau bod defnyddwyr y gwasanaeth iechyd yn cael gwybod y ffeithiau i gyd am unrhyw newidiadau, a'u bod yn cael cyfle i fynegi barn am y cynlluniau.

Mae disgwyl i Fwrdd Iechyd Hywel Dda gyhoeddi cyn hir sut maent yn rhagweld y bydd gwasanaethau iechyd yn cael eu darparu dros y blynnyddoedd nesaf - byddaf yn cadw llygad barcud arnynt i sicrhau bod ymgynghoriad llawn yn cael ei gynnal ac nad ydynt yn celu unrhyw wybodaeth rhag y cyhoedd.

Fe fynychais nifer o ddigwyddiadau yng Ngheredigion yn ystod y mis diwethaf hefyd. Ddechrau'r mis, cefais y fraint o annerch trigolion Maes Mwldan - y fflatau gofal ychwanegol yn Aberteifi - ynghylch fy ngwaith yn Aelod Cynulliad lleol. Cefais amser da yn sgwrsio ac ateb cwestiynau yno ac rwy'n gobeithio iddynt hwythau fwynhau hefyd.

Yn Aberaeron, cefais yr anrhydedd o agor Swyddfa Treftadaeth newydd y dref sy'n rhan o brosiect uchelgeisiol a drefnir gan y gymdeithas dreftadaeth leol. Gwnes hefyd gwrdd â'r gwirfoddolwyr sy'n cynnal y gwasanaeth Ceir Cefn Gwlad yn y sir gan fanteisio ar y cyfle i ddiolch iddynt am eu gwaith caled sy'n cael ei werthfawrogi gan bobl ar draws Ceredigion.

Yn olaf, roeddwn yn falch i fynychu un o'r cyngherddau a drefnwyd yn Theatr Felinfach i ddathlu pen-blwydd CFfI Ceredigion yn 70 oed. Mae'r ffermwyr ifanc yn cyfrannu cymaint at fywyd cymdeithasol y sir ac roedd hi'n braf gweld cynifer o gefnogwyr wedi dod allan i ddathlu gyda nhw. Hoffwn ddymuno'n dda i'r ffermwyr ifanc am y 70 mlynedd nesaf ac edrychaf ymlaen at fynd i'w digwyddiad nesaf yn y dyfodol agos.

Cwmann

Ysgol Carreg Hirfaen

Rydym wedi bod yn astudio'r nofel Fantastic Mr Fox gan Roald Dahl yn ein gwersi Saesneg a braf oedd cael gweld y llyfr ar y sgrin fawr yn sinema Canolfan y Celfyddydau yn Aberystwyth. Dyna hwyl oedd medru cymharu'r ffilm a'r llyfr. Mae Roald Dahl yn awdur arbennig ac edrychwn ymlaen at ddarlflen mwy o'i storïau.

Cynhaliwyd ein Gwasanaeth Diolchgarwch yn ddiweddar yng Nghapel Bethel, Parcyrhos. Cafodd y plant i gyd y cyfle i gymryd rhan a chodwyd £150 tuag at Oxfam-Glendid Dŵr yn y trydydd byd. Hoffwn ddiolch i'r Parchedig Huw

Roberts am y croeso.

Dydd Iau, 6ed o Hydref aeth blynyddoedd 2, 3 a 4 i chwarae tag rygbi yn Llandeilo. Roedd yn ddiwrnod bendigedig gyda phedwar tîm Carreg Hirfaen yn ennill pob gêm. Braf oedd gweld y plant yn chwarae yn rhan o dîm. Rydym yn edrych ymlaen at fynd eto.

Cafodd y Cyfnod Sylfaen fore llawn hwyl yn canu yng nghwmni Gwenda Owen. Cafwyd ymweliad gan Mr Urdd a oedd yn dathlu ei ben-blwydd.

Cawsom ymweliad gan y frigâd dân i drafod diogelwch yn y cartref. Cafodd rhai o'r plant y cyfle i wisgo gwisg y dynion tân.



Gwisgodd holl blant a staff Carreg Hirfaen mewn coch ar ddydd Gwener, Hydref yr 21ain i ddangos eu cefnogaeth i dîm Rygbi Cymru a oedd yn chwarae yn erbyn Awstralia am y trydydd safle yng Nghwpan Rygbi'r Byd.

Gwylwyd y gêm ar sgrin fawr yn yr ysgol ond er yr holl gyffro a'r ceisiau da, colli oedd hanes Cymru y tro hwn.



Bu plant blynyddoedd 5 a 6 yn beicio mynydd ar fynydd Cambria ger Tregaron yn ddiweddar. Yn dilyn sesiwn hyfforddiant sgiliau gan Arwel Jones, dechreuwyd ar y daith traws gwlad ger fferm Nant y Maen, Tregaron.

Croeswyd y mynydd ar lwybrau garw, llithrig a gwlyb ac er i ambell un ddioddef codwm annisgwyl mewn pwll dŵr, roedd y mwynhad yn amlwg ar wynebau'r beicwyr ifanc.

Yn dilyn picnic blasus i ginio ger mynedfa Coedwig Tywi, dilynwyd llwybr caregog iawn heibio i fferm Blaenglasffrwd a chyrraedd Ystrad Fflur a diwedd y daith ganol prynhawn. Pawb yn flinedig, gwlyb ac oer ond wedi mwynhau'r profiad yn fawr ac yn ysu am y daith feicio mynydd nesaf. Diolch i Arwel am ein tywys yn ystod y dydd ac i Helen am yrru'r fan fawr wen!

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau mawr i Anwen, merch John a June James, Maesteg a Huw, mab Berwyn a Helen Jones, Heol Lluet y Bryn, Caerfyrddin

ac ŵyr i'r diweddar Edwin a Beryl Jones, Angorfa, Llanbed ar eu dyweddïad yn ystod y mis. Pob dymuniad da i'r ddau i'r dyfodol.

Cylch Meithryn Coedmor

Llongyfarchiadau enfawr i Miss Hannah, Emlyn a'r teulu ar enedigaeth yr efeilliaid, Alis a Cerys. Mae plant y meithrin yn edrych ymlaen yn fawr at gael cwrdd â'r ddwy.

Hoffwn estyn croeso cynnes i Mrs Georgina Kersey sydd wedi cael ei phenodi'n arweinydd newydd tra bod Miss Hannah bant ar gyfnod mamolaeth.

Sioe Ffasiynau

Cynhelir Sioe ffasiynau Cylch Meithrin Coedmor ar y 18fed o Dachwedd yn Neuadd St.Iago, Cwmann am 7.30 y.h. Tocynnau £10 yr un gan gynnwys gwin a danteithion. Llywydd y noson fydd Mrs Catherine Woodward. Tocynnau ar gael o'r Cylch neu o Duet Lan Llofft.

Clwb 125 Mis Tachwedd

1. Hal a Eli, Cysgod y Coed, Cwmann, 78, 2. Mrs. Eirwen Davies, Ffawydd, Cwmann, 83, 3. Mr. Eifion Williams, Bryn-y-Wawr, Cwmann, 4. Mr. Edwin Harries, 8 Nant-y-Glyn, Cwmann, 23, 5. Mr. David Herbert, Dolfor, Cwmann, 6. Mr. Steven Palmer, The Gables, Cae Ram, Cwmann, 124, 7. Mrs. Elizabeth Warmington, Falklands, Bryn Rd., Llanbed, 85, 8. Mrs. Audrey Bonner, Bridge Street, 6, 9. Les & Marjory, Golwg y Dyffryn, Cwmann, 67, 10. Mr a Mrs. B. Hughes, Ramley, Cwmann, 50.

Clwb 250 Mis Hydref

1. 30, Gareth Jones, Ceirwisg, Pont Creuddyn, 2. 87, John James, Maesteg, Cae Ram, Cwmann, 3. 199, Mr. L King, Tafarn Jem, Cwmann, 4. 16, Gary Jones, Bryndolau, Cwmann, 5. 121, Fiona Jones, Llys Teifi, Cwmann, 6. 148, Joanna Morgan, Llys Penparc, Cae Ram, 7. 189, Ruth Jones, Heol Y Maes, 8. 136, Alan Morgan, Rhydowen, Parcyrhos, 9. 48, Amanda Evans, Annwylfan,

Llanllwni, 10. 85, Mrs. M. Evans, Fferm Felinfach, Cwmann.

Dathlu dwbl

Llongyfarchiadau gwresog i Rita, Greenmeadows ar ddathlu pen-blwydd arbennig yn ogystal â deugain mlynedd o wasanaeth yn y salon trin gwallt yn Llanbed. Gobeithio dy fod wedi cael amser da gyda'r dathlu.

Dathlu 60 mlynedd

Llongyfarchiadau mawr ar ran pawb i'r Canon Winzie Richards ar ei wasanaeth i'r Eglwys am gyfnod o 60 o flynyddoedd. Gwyddom i gyd am barodrwydd y ddau, y caredigrwydd a'r cyfeillgarwch y maent wedi eu rhannu ar hyd y daith a dymunwn hir oes a iechyd i'r ddau ohonynt am flynyddoedd i ddod.

Eglwys Sant Iago Diolchgarwch

Daeth nifer dda ynghyd i'r gwasanaeth diolchgarwch yn eglwys Sant Iago ar nos Sul, 2ail o Hydref, dan arweiniad yr Hybarch Ddr. William Strange. Croesawodd y ficer, y Parchedig Eileen Davies, a chafwyd neges bwrpasol iawn ganddi am y cynhaeaf ac amaethyddiaeth. Gwnaed y darlleniadau gan Mr. Graham Evans a Mr. Danny Davies, y ddau warden. Yr organyddes oedd Mrs. Ceinwen Evans. Casglwyd gan Mr. Tony Lewis a Mr. Edwin Harries. Yr oedd yr eglwys wedi ei haddurno yn dymhorol iawn â ffrwythau, llysiau a blodau'r hydref â'r addurniadau ar bob ffenestr yn cynrychioli haelioni Duw tuag atom. Yn ganolbwynt i'r cyfan roedd y ffenestr liw hardd sydd yn dynodi Iesu Grist, yr heuwr, yn hau'r had ac yn cyfleu neges y cynhaeaf yn effeithiol iawn. Diolchodd y ficer i bawb am eu presenoldeb, i'r gwragedd a fu'n addurno'r eglwys ac i bawb a gyfrannodd ffrwythau a blodau.

Cwmsychpant



Cynhaliwyd Cwrdd Diolchgarwch Ysgol Sul Capel y Cwm, Cwmsychpant ar brynawn dydd Sul, Hydref 23ain. Y Byd Naturiol oedd eu thema a braf oedd gweld y plant â graen ar eu gwaith. Carys Evans oedd yn cyfeilio iddynt a diolchodd Y Parch. Wyn Thomas i bawb am eu cyfraniadau at lwyddiant y gwasanaeth. Dyma lun o'r plant ar ôl y cwrdd.

Drefach a Llanwenog

Ysgol Llanwenog

Cynhaliwyd etholiad yn ystod y tymor a dewiswyd wyth disgybl newydd i'n Cyngor Ysgol, sef Osian Davies fel Cadeirydd, Rhys Evans fel Trysorydd, Ben Lewis fel Ysgrifennydd, Lowri Davies, Katie Brown, Liam Day, Sam Lewis a Jamie Jones. Maent wedi cynnal ymchwil am fagiau ysgol ac maent wedi penderfynu ar steil a maint. Edrychwn ymlaen at dderbyn yr archeb erbyn yr hanner tymor nesaf.

Braf oedd gweld cynifer o bobl o'r gymuned wedi ymuno â ni yn ein Cwrdd Diolchgarwch brynhawn dydd Mercher 19eg o Hydref. Cynhaliwyd y gwasanaeth yn Eglwys Santes Gwenog yng nghwmni Ficer Suzy Bale. Roedd yr allor yn lliwgar iawn gyda'r holl fasgedi o lysiau a ffrwythau roedd y disgyblion wedi eu rhoi. Ddydd Iau, aethom i ddiddanu yng nghartref yr henoed Maesyfelin ac roedd y trigolion yn ddiolchgar iawn am yr holl roddion. Dewisodd Cyngor yr Ysgol i gasgliad y cwrdd fynd tuag at Tŷ Hafan.

Diolch yn fawr iawn i bawb a wnaeth ddod â'u bagiau o hen ddillad, esgidiau a dillad gwely i'r ysgol gogyfer â Bags2School. Bydd

yr un nesaf ym mis Mawrth, 2012.

Cafwyd prynhawn o adloniant yn Ysgol Uwchradd Llambled gyda Sbri-di-ri yng nghwmni Mr Urdd, Sali Mali a Gwenda Owen. Bu Adran y Babanod yn canu a dawnsio drwy'r prynhawn. Llawer o ddiolch i bawb a wnaeth drefnu'r digwyddiad i ni gyd.

Braf oedd gweld Lowri Davies, Katie Brown a Chloe Marie Jones yn perfformio yn sioe ddawns, Sally Saunders a gynhaliwyd yn Theatr Felinfach yn ddiweddar. Roedd yn sioe gynhwysfawr iawn ac roedd pob un wedi dawnsio'n arbennig o dda.

Y tymor yma eto mae'r cwlwm rhwng ysgol Llanwenog, Cwrtnewydd a Llanwnnen yn parhau yn gryf gyda pharhad y Cynllun Tair Ysgol. Y tymor yma maent yn astudio Hanes yn yr 80au; datblygu sgiliau Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu; a darllen a deall gwaith mapio Daeryddiaeth. Tri athro sydd ynghlwm â'r gwaith dysgu, sef Mr Ebbsworth yn Llanwnnen, Mr Ward yng Nghwrtnewydd a Mr Evans yn Llanwenog. Diolch yn fawr i'r tri ohonoch am eich gwaith diwyd wrth baratoi gwersi deniadol a diddorol i'r plant.



Bu swyddog datblygu rygbi, sef Bryn Evans yn yr ysgol yn cynnal clwb Campau'r Ddraig. Cafodd y plant sesiwn wrth eu boddau yn ei gwmni. Edrychwn ymlaen yn fawr iawn at y tro nesaf y bydd yn medru dod atom.



Rhai o ddisgyblion yr ysgol yng nghartref yr henoed Maesyfelin, Drefach gyda'u rhoddion.

Diolch

Dymuna Miss Hannah Jones, gynt o fferm Cwmnant, Llanwenog, ond sydd nawr yn preswyllo yng Nghartref Henllan, ddiolch i bawb am y llu cardiau, blodau, anrhegion a chyfarchion a dderbyniodd ar achlysur ei phen-blwydd yn 100 oed ar 7fed Hydref 2011.

Gwerthfawrogwyd pob cerdyn a chyfarchiad gan Hannah a'i theulu. Dymuna Dan ac Irene ddiolch yn arbennig i staff Cartref am eu gofal tyner a charedig yn ddyddiol am Hannah.

Hefyd, dymuna Jack Davies, Blaenwaun ddiolch i bawb am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniodd ar ei ben-blwydd yn 80 oed yn ddiweddar. Diolch yn fawr.

Merch leol yn rhan o'r ymdrech i ddal Gaddafi!

Mae Sian Jenkins, Gerynant, Llanybydder wedi treulio'r haf ar arfordir Libya yn un o griw y llong H.M.S. Ocean. Cludydd awyrennau yw'r Ocean sy'n cael ei defnyddio fel maes awyr symudol i hofrenyddion Apache. Defnyddiwyd y rhain i gynorthwyo'r rebels i gael gwared ar Gaddafi ar ran NATO.

Yn wreiddiol, hwylodd Sian ym mis Ebrill i'r Dwyrain Canol am gyfnod o saith wythnos, ond dargyfeiriwyd yr Ocean i arfordir Libya, ac mae'n dal yno. Dymuna ei theulu a'i ffrindiau bob lwc iddi a gobeithio ei gweld adref yn fuan. Pob dymuniad da i ti, Sian.

Eglwys Santes Gwenog.

Ar Hydref 19eg daeth nifer o rieni, perthnasau a ffrindiau i'r Eglwys i fwynhau a gwerthfawrogi gweithgaredd plant Ysgol Llanwenog yn eu cyflwyniad blynyddol adeg y Gwasanaeth Diolchgarwch. Diolchwn i'r athrawon am eu llafur caled, gan sicrhau fod pob plentyn yn ymateb i'w gofynion yn hyderus a graenus. Cafwyd deuawd hyfryd gan ddau o'r athrawon, sef Mr Arwel Evans a Mrs Cathryn Hughes. Bu'r plant yn mwynhau gwrando ar y Parch Suzie Bale yn sgwrsio gyda'i ffrind Maggie, sef y gath pyped, magnificat. Cafodd ymateb da i'w chwestiynau gan y plant. Diolch i'r gwagedd am addurniadau pwrpasol ac hydrefol.

Nos Sul Hydref 23ain cynhaliwyd Cwrdd Diolchgarwch y Ddeoniaeth yn Neuadd y Pentref Cwmann. Diolch i wragedd eglwysi Llanybydder, Llanllwni a Llanwenog am eu parodrwydd i weini wrth y byrddau.

Dymunwn wellhad i bawb sy'n anhwylyd. Ar hyn o bryd, mae mam Mrs Caroline Davies gyda nhw yn Llysderi yn derbyn gofal y teulu ar ôl iddi dderbyn llawdriniaeth yn ddiweddar.

Clwb 100 Mis Medi.

1. Glenys Williams, Derwenlas
2. Eleri Lewis, Rhiwsion Uchaf
3. Moira Bone, Drefach.

Y Gymdeithas Hŷn

Daeth 17 o aelodau ynghyd i'r Cyfarfod Blynyddol yn Festri Seion, Cwrtnewydd, ddydd Mercher, Hydref 10fed, a chroesawyd pawb gan y Cadeirydd, Dilwen George. Trist oedd cyfeirio at farwolaeth un o'r aelodau, sef Sally Jones, Brynhyfryd, ac estynnwyd cydymdeimlad y Gymdeithas i'w theulu.

Darllenwyd rhestr o'r aelodau oedd wedi derbyn cardiau yn ystod y flwyddyn trwy law Nanna Jones,

a diolchwyd iddi am ei gwaith parod. Derbyniwyd Cofnodion 2010 fel rhai cywir, a'r un modd Adroddiad y Trysorydd.

Cyn mynd ati i ethol swyddogion am y flwyddyn bresennol, darllenwyd llythyr oddi wrth Annie Bowen, yn dymuno peidio ag ail sefyll fel Trysorydd, a dymuniad Beryl Lewin oedd cael ei rhyddhau o'i swydd fel Is-drysorydd.

Cynigwyd bod y Cadeirydd, yr Is-gadeirydd, yr Ysgrifennydd, ac Ysgrifennydd y Cardiau yn cael eu hail ethol, a derbyniodd Brenda Jones, Ty-Cerrig swydd y Trysorydd, gydag Eifion Davies yn ei chynorthwyo.

Trefnwyd rhaglen y Gaeaf a bydd ein cinio Nadolig yn Nhafarn Glanyrafon, Talgarreg, ddydd Mercher, Rhagfyr 14eg. Enwau i Yvonne, 480590.

Wedi gorffen y gwaith swyddogol, mwynhawyd lluniaeth ysgafn wedi ei baratoi gan Chwirydd Capel-y-Bryn a Seion, a thalwyd y diolchiadau gan Irene Jones, yr Is-Gadeirydd.

Bydd y cyfarfod nesaf ddydd Mercher, Tachwedd 9fed yn Festri Capel-y Cwm am 1.30 yp.

C.F.F.I. Llanwenog

Ar y 3ydd o Hydref pan roedd y gwynt a'r glaw tu allan, roedd Clwb Ffermwyr Ifaine Llanwenog yn gwrando'n astud ar sgwrs hynod o ddiddorol gan Enfys ac Arwel yn sôn am eu taith i Slofenia i ymweld â'r Rali Ewropeaidd. Rwy'n siŵr fod pawb wedi mwynhau eich sgwrs ac yn ysu i gael gwybod rhagor am y daith addysgiadol. Yr wythnos ganlynol fe gafodd pawb noson fythgofiadwy gyda thrydanwr yn creu amryw o bethau. Roedd gwên ar wyneb pawb trwy gydol y noson a diolch fyth, mae pawb yn dal i fod yn fyw!

Capel y Groes oedd lleoliad y Clwb ar yr ail ar bymtheg ar gyfer Cwrdd Diolchgarwch blynyddol C.F.F.I Llanwenog. Fe gyfrannodd pawb yn hael iawn drwy ddod â ffrwythau a llysiau. Rwy'n siŵr fod pawb ym Maes y Felin yn ddiolchgar iawn! Fel y mae y rhan fwyaf ohonoch yn gwybod, fe fuodd sioe hynod o lwyddiannus yn Theatr Felinfach yn ddiweddar i ddathlu pen-blwydd C.F.F.I Ceredigion yn 70 mlwydd oed. Fe fuodd sawl aelod o'r clwb yn weithgar dros ben i wneud yn siŵr fod y sioe yn gymaint o lwyddiant. Da iawn, a phen-blwydd hapus i C.F.F.I Ceredigion! A chofiwch, os oes gennych unrhyw diddordeb i ymuno â'r clwb, mae yna wybodaeth ar ein gwefan, sef www.cffillanwenog.org.uk

Drefach a Llanwenog



Eleri Rivers, Llywodraethwraig yn Ysgol Gynradd Llanwenog a gymerodd ran yn Ras Hanner Marathon Caerdydd yn ddiweddar gan godi £555 i'r ysgol. Gyda hi yn y llun mae Geraint Davies, Cadeirydd y Llywodraethwyr a nifer o blant yr Ysgol.



Enillwyr yn adran y plant yn Ras Hwyl Ysgol Llanwenog a gynhaliwyd yn ddiweddar a Glyn Price, Sarn Helen oedd enillydd Ras y Chwarter Marathon i oedolion.



COFIWCH
Dydd Sul y Cofio
13.11.11
Plant Mewn Angen
18.11.11



Côr Corisma

Erbyn hyn, rydym wedi ail ddechrau cwrdd ar ôl saib dros yr haf a phawb yn awyddus iawn i ailgydio yn y canu o dan gyfarwyddyd ein harweinyddes fedrus, Carys Lewis. Mae'r côr wedi denu nifer o aelodau newydd i'n plith o ardaloedd mor bell â Llandeilo i'r dwyrain ac Aberaeron i'r gorllewin. Swyddogion newydd y Côr am eleni yw:

Cadeirydd - Lena Daniels
Ysgrifenyddes - Haf Hughes
Trysorydd - Luned Thomas

Yn ddiweddar, bu criw o aelodau'r Côr yn diddanu ymwelwyr o wledydd Ewrop yng ngwesty'r Grannell. Roedd yr ymwelwyr yn ymweld ag Ysgol Ffynnonbedr ac Ysgol y Ddwyllan, Castell Newydd Emlyn. Rhan o gywaith Comeniws

oedd yr achlysur, sef cynllun lle mae staff o wahanol ysgolion o'r Eidal, Sbaen, Iwerddon, Awstria, Ffrainc a Chymru'n mynd ar ymweliadau i ysgolion ei gilydd er mwyn dysgu am ddulliau dysgu a diwylliant y gwledydd eraill. Mae disgyblion yr ysgolion yn astudio'r gwahanol wledydd ac yn cysylltu â'i gilydd drwy'r post, e-bost a skype. Cyflwynodd y Côr nifer o ganeuon traddodiadol Cymraeg ac alawon cyfoes iddynt. Mwynhawyd y canu'n fawr iawn ac roedd pawb yn gytún y cafwyd noson o adloniant gwerth chweil. Arweinwyd y noson gan Lena Daniel yn hwylus dros ben yn ei ffordd ddihafal ei hun a chyfeilydd y noson oedd arbenigwraig arall o'n plith, sef Sally Saunders.

Cellan

Aelwydydd Newydd

Bu llawer o newidiadau yn y pentref yn ddiweddar gyda theuluoedd newydd yn ymgartrefu yn Lanlas Fawr, Lanlas Fach, Brofallen, Rhydyderi a Rochelle. Croeso cynnes i chi i'r pentref a gobeithio eich bod yn setlo yn yr ardal.

Capel yr Erw

Mi gynhaliwyd Cwrdd y Diolchgarwch yng Nghapel yr Erw ar yr 11eg o Hydref gyda'r Parch. Andrew Lenny yng ngofal y gwasanaeth. Yr oedd yn neis gweld y capel yn llawn.

Pen-blwydd Arbennig

Yn ystod mis Hydref dathlodd Andrew Williams, Glan-nant Coy ei ben-blwydd yn 65 oed. Gobeithio eich bod wedi mwynhau'r diwrnod. Iechyd da i chi am flynyddoedd eto.

Noson Sinema

Cadwch lygad ar agor am y ffilmiau sy'n cael eu dangos yn Neuadd y Mileniwm; mae'r noson sinema yn cael ei chynnal am yn ail nos Wener. Croeso i bawb.

Diolch

Dymuna Mary Jones, Caerau ddiolch i bawb am y llu o gardiau, galwadau ffôn, rhoddion a dymuniadau da a dderbyniodd ar achlysur pen-blwydd arbennig yn ddiweddar.

Gweithdy Llechi Cymreig, Enwau Tai, Dillad, Llyfrau, Cds, Dvds, Anrhegion ac Oriel

Sianti

Uned 2 Monumental Works,

Stryd y Fro, Aberaeron
gyferbyn a Banc y Natwest

01545 571510

www.sianti.org



Mae Toriad Taclus
Wedi newid siop
Mae ar Heol Caerfyrddin
Ger y Sgwâr Top

Ffoniwch Catrin ar 01570 481425

Ruth Thomas a'i Chwmni Cyfreithwyr

Adeiladau'r Llywodraeth,
Heol Pontfaen, Llambled
Ffon: 423300 Ffacs: 423223
mail@ruththomassolicitors.co.uk
yn cynnig pob gwasanaeth
cyfreithiol
Apwyntiadau hwyr neu yn eich
cartref

Ymgynghorwyr Yswiriant Eryl Jones Cyf

Beth am gysylltu â ni am amcan-bris
i'ch holl anghenion yswiriant?

Car, lori, fan,
beic modur

Teithio

Cyfrifoldeb



Yswiriant tŷ/
cynnwys

Fferm a busnes

Anifeiliaid

Polisiau Cystadleuol i bob math o yswiriant,
cyngor a chefnogaeth yn rhad

Swyddfa'r Hen Fanc, 6 Stryd Fawr
Llanbedr Pont Steffan, SA48 7BA
Ffôn: 01570 422401
Ffacs: 01570 422562

Authorised & Regulated by The Financial Services Authority

FISHERS

ARMS



Bwyd cartref ardderchog nos Iau, Gwener a Sadwrn,
Prydiau mewn basged ar gael bob nos.
Cwrw traddodiadol. Croeso i awyrgylch Gymreig
gan Berian a Beverley Wilkins a'u merched.

Cellan, Llambled
01570 422895

Llanbedr Pont Steffan

Cylch Cinio

Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y tymor newydd yng Ngwesty Glynhebog nos Iau 6ed Hydref. Croesawyd yr aelodau gan y Llywydd, y Bnr. Elfan James. Diolchodd i Rhys Bebb Jones am ei barodrwydd i ymgymryd â swydd y trysorydd am gyfnod o ddwy flynedd a thalodd deyrnged i'r diweddar Dilwyn Davies. Cafwyd munud o dawelwch i gofio amdano ac am Jan, priod y cyn Lywydd, Y Cyng. Hag Harris a fu farw yn ddiweddar.

Cyflwynodd y Llywydd ŵr gwadd y noson, y Cyng. John T Davies, Eglwyswrw a'i groesawu'n gynnes. Ef a'i deulu yw'r pumed genhedlaeth yn Cwm Betws ac yntau yw Arweinydd Cyngor Sir Benfro a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Ymysg ei swyddi eraill, mae yn Is-Lywydd Cenedlaethol Mudiad y Ffermwyr Ieuan ac yn aelod o Fwrdd Awdurdod S4C.

Cymeriadau Bro'r Preseli oedd testun ei sgwrs ac i'w cyflwyno fe dywysodd yr aelodau ar daith o amgylch bro Cemaes. Trwy ymweld â phentrefi megis Nanhyfer, Felindre Farchog, Crymch a Phenbryn cawsom ganddo storïau, rhai digri iawn, am nifer o gymeriadau lleol, "DNA y gymdeithas" fel y galwodd hwy. Fe'n diddanwyd gan hanesion am unigolion, cyfathrebwyr naturiol, a wnaeth gyfraniad helaeth i'w cymdeithas. Clywsom amdanynt mewn amrywiol sefyllfaoedd, yn cynnwys sioe amaethyddol leol, Llys yr Ynadon, Seiat Holi, tafarn a chyfarfod o'r Cyngor Dosbarth. Mewn un ardal ble roedd cymdogion yn arfer cwrdd â'i gilydd wrth gludo churns llaeth i ben yr hewl, bellach mae carreg yno yn cynnwys eu henwau, arwydd unigryw o'r parch tuag atynt.

Diolchwyd i'r siaradwr gan y Cyng. Eirwyn Williams. "Noson i'w chofio ac un a osododd safon uchel iawn ar gyfer ein cyfarfodydd," meddai.

Merched y Wawr

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan un o'r llywyddion, sef Morfudd Slaymaker a chanwyd cân y mudiad i gyfeiliant Elma Phillips.

'Roedd yn bleser cael croesawu aelod newydd, sef Morwen Thomas. Croesawodd Glesni Thomas yn ôl ar ôl ei llawdriniaeth a da oedd clywed bod Aerwen Griffiths adref o'r ysbyty yn dilyn ei llawdriniaeth hithau.

Aeth sawl aelod i angladd Jan Harris a fu'n aelod ffyddlon a gweithgar o'r gangen am flynyddoedd. 'Roedd Jan wedi dysgu Cymraeg yn eithriadol o dda ac wedi ennill nifer o gystadlaethau i ddysgwyr gyda'r mudiad. Cafwyd munud o dawelwch i gofio amdani.

Diolchwyd yn gynnes i Derek

Evans am archwilio'r fantolen. Cytunodd Verina Roberts ac Eryl Jones ymweld â chartref preswyl Hafandeg y mis nesaf. Derbyniwyd llythyr oddi wrth gangen Cylch Aeron yn ein gwahodd i ymuno â nhw ar Dachwedd 30ain.

Cyflwynodd y llywydd arall, Dilwen Roderick, ein gwr gwadd sef Jon Meirion Jones. Prifathro wedi ymddeol yw Mr Jones ac yn byw yn ardal Llangrannog. Mae yn fab i'r diweddar Jac Alun Jones, un o fois y Cilie. Teitl ei araith oedd "Hanner dwsin" a daeth â chwech o bethau a oedd o ddiddordeb mawr iddo. Yn gyntaf, llun ceffyl olaf y teulu a oedd yn ddall ond yn medru cerdded ar ei ben ei hunan yn ôl ac ymlaen uwchben y dibyn ar lan y môr yng Nghwmtudu. Yn ail, dangosodd coconut siâp pêl rygbi a oedd wedi ei danfon drwy'r post bob cam o Hawaii. Yna, potel wag gyda llong hwyliau ynddi a honno yn ei atgoffa bod un ar ddeg o'r teulu wedi treulio amser ar y môr. Wedyn, darn o bren o Ysgol Pontgarreg gyda WN (Welsh Not) arno, prawf o'r ymgyrch yn erbyn yr iaith Gymraeg yn ystod y 19G. Yna, hen lythron wedi eu danfon o bellter byd gan ei dad a oedd yn gapten llong. 'Roedd yn trysori'r rhain yn fawr iawn. Ac i orffen, bu'n darllen darnau o 'Cywaith Awen Isfoel.' Gwnaed y diolchiadau gan Eryl Jones ac ategodd bod hon wedi bod yn noson a erys yn hir yn y cof.

Enillwyd y raffl gan Gwenda Thomas a Margaret Roberts; Joan James a Glenys Morris oedd yn gyfrifol am y te.

Cymdeithas Hanes

Croesawyd y cadeirydd, Selwyn Walters, gynulliad da o aelodau i'r Hen Neuadd ym mis Hydref cyn iddo gyflwyno'r siaradwr gwadd, Julian Wormald o Rydcymerau. Roedd yna draw gwahanol i'r noson hon, gan mai siarad am y presennol yr oedd, yn hytrach na sôn am y gorffennol ac am destun hanesyddol.

Mae'n debyg fod y bygythiad o gael rhagor o felinau gwynt yn ymestyn o Fynydd Llanllwni draw at Brechfa ac ardal Rhydcymerau yn peri cryn ofid iddo. Mae'n poeni'n arbennig am beth all ddigwydd i'r cynefinoedd naturiol. Yn sgil hynny, penderfynodd greu ffilm o'r hyn sydd yno nawr, gan greu cofnod o fywyd gwyllt yng nghefn gwlad Sir Gâr.

Ym mis Ionawr 2010 prynodd camera symudol (Cam-corder), a bu wrthi'n ffilmio drwy gydol y flywydd - blodau'r Gwanwyn, ymwelwyr yr Haf ym myd yr adar, a'r paratoi yn eu mysg i ymadael yn yr Hydref, ac yna'r Gaeaf yn dod â'r eira a'r rhew caled cyn diwedd mis Tachwedd.



Diolch o galon i Mary Davies (absennol o'r llun) a'r holl staff yn HSBC Llanbed am eu rhodd haelionus o £500 tuag at elusen Cystic Fibrosis. Rhoddodd hyn hwb sylweddol i'r ymdrech codi arian gan Harri a Sian Davies, [Gwili Jones, Llanbed] Ciliau Aeron a gymerodd ran ym marathon Efrog Newydd y llynedd. Yn dilyn cyngerdd a gynhaliwyd yn y pentre, ynghyd â bore coffi ym Mheniel, Caerfyrddin, a llu o roddion uniongyrchol, codwyd cyfanswm o £5100.

Mae'r elusen CF ar hyn o bryd ar fin cynnal treialon therapi genetig a all, yn y pen draw, arwain at wella'r cyflwr hwn. Mae'r cyhoeddusrwydd diweddar yn y wasg ac ar The One Show yn tanlinellu pa mor uchel yw'r targed o £6m sydd ei angen er mwyn i'r ymchwil fynd yn ei flaen. Am fwy o wybodaeth, ewch i www.cftrust.org.uk/research/.

Diolch yn fawr iawn i holl drigolion Llanbed a'r fro.

Ar ôl i Julian roi cyflwyniad llafar, gan gyfeirio at rai o hen arferion yr ardal sydd wedi mynd yn angof, dangoswyd y ffilm. Doedd bron ddim siarad arni ond roedd yna lawer o synau eraill - trydar adar, sŵn y gwynt, murmur y nant, a sŵn traed dros y rhew. Yna, sŵn ambell beiriant, tractor ac awyren er enghraifft, yn amharu ar y tawelwch trydanol. Gwelwyd lliwiau'r awyr wrth i'r dydd wawrio ac eto adeg y machlud, a ffurf tyfiant y mwsogl a chrisialau'r rhew, y pethau bach sy'n cael eu cymryd yn ganiataol, heb i ni wir eu gweld.

Wrth ddiolch i Julian Wormald am ei ffilm rhyfeddol o brydferth - ffilm a ddaeth yn gydradd gyntaf yng nghategori 'Dogfen Ewrop' yng Ngŵyl Ffilm Bae Abertawe 2011 - dywedodd y Cadeirydd ei bod hi'n amlwg fod ganddo berthynas glos â'i gynefin a'i fod wedi creu cofnod o'r bywyd sydd yn ei amgylchynu yn Rhydcymerau.

Bu yna dipyn o drafod ar y ffilm, gyda theimladau cymysg am yr hyn oedd y tu cefn i greu'r gwaith. Efallai y dylem gofio fod pob heddiw yn hanes erbyn yfory a'i bod yn bwysig cadw'r pethau sydd gennym ar gof a chadw, jyst rhag ofn!

Bydd y cyfarfod nesaf nos Fawrth, Tachwedd 15fed yn yr Hen Neuadd, pan fydd Denis Bates yn siarad am ganmlwyddiant Rheilffordd Llanbed, Aberaeron a Cheinewydd a agorwyd yn 1911. Croeso cynnes i bawb.

Aelwyd yr Urdd

Braf oedd croesawu nifer o aelodau newydd i gyfarfod

agoriadol yr aelwyd ar y 27ain o Fedi. Etholwyd y swyddogion canlynol am y flwyddyn 2011-2012: Arweinyddion - Janet a Geinor; Cadeiryddion - Lleucu Ifans a Natalie Plant; Ysgrifynyddion - Alis Batten a Teon Rees; Trysorydd - Meirion Siôn Thomas; Gohebydd y Wasg - Morgan Lewis. Hefyd yn y cyfarfod yma gwnaethon ni baratoi rhaglen am y tymor a chwarae nifer o gêmiau i ddod i nabod ein gilydd.

Braf oedd gweld pawb a oedd wedi dod i'r cyfarfod cyntaf yn dod 'nôl am fwy o hwyl yn ein hail gyfarfod ar 11eg o Hydref. Thema'r noson oedd Bwyta'n Iach gyda Siân Jenkins. Roedd gwahanol fathau o ffrwythau i'w cael yno fel mefus, grawnwin, melon a llawer mwy. Wedyn, dangosodd Siân sut i baratoi'r ffrwythau. Yna, rhannwyd pawb mewn grwpiau i dorri ac addurno platiau eu hunain. Roedd ymdrech pawb yn werth chweil ac roedd plât pawb yn lliwgar. Yn gydradd gyntaf am y plât gorau roedd tîm Jessica, Alis a Sara Wyn a thîm Rhiannon, Elan a Carie-Ann. Ar ddiwedd noson bleserus iawn diolchodd Meirion i Siân. Ac yna roedd pawb wedi llenwi eu boliau gyda ffrwythau ac ambell i fachgen wedi bwyta mwy na'i siâr!

Bedyddwyr

Daeth cynrychiolaeth dda iawn o eglwysi Bedyddwyr Gogledd Teifi ynghyd i Goleg Prifysgol y Drindod Dewi Sant i ginio'r cylch. Croesawyd pawb yn gynnes gan Janet ac wedi mwynhau cinio blasus a chymdeithasu wrth y byrddau, cyflwynodd ein siaradwr gwadd, sef y Parchedig Eirian Wyn Lewis o

Llanbedr Pont Steffan

Fynachlogddu. Cyfeiriodd ato fel un o blant Aberduar sydd yn weinidog ar ddwy eglwys yn Sir Benfro a dwy yn Sir Gaerfyrddin. Mae'n weithgar iawn yn y gymuned ac yn uchel ei barch. Roedd pleser pawb yn amlwg wrth wrando arno yn llawn hiwmor, yn rhannu o'i brofiadau yn teithio i bellafoedd byd gan ganolbwyntio ar ei ymweliadau â Phatagonia sydd yn agos iawn at ei galon. Ef yw Llywydd Cymdeithas Ariannin. Cyfeiriodd at drigolion y wlad fel rhai cyfeillgar tu hwnt a'u croeso yn rhyfeddol. Mwynhawyd y noson yn fawr iawn ac erbyn y dydd Clonc yn dod o'r wasg bydd Eirian wedi cyrraedd y Wladfa am y seithfed tro!

Talodd Dewi, Glanafon ddiolch haeddiannol i Eirian am ei anerchiad diddorol iawn ac am lwyddo i gyfleu naws Patagonia i ni; i staff y Cleg am y bwyd, ac yn olaf ond cyn bwysiced â neb, i Nesta am ei threfniadau manwl fel arfer ac i aelodau'r 6 eglwys am eu cefnogaeth.

Cydymdeimlad

Estynnir cydymdeimlad dwysaf â'r teuluoedd i gyd sydd wedi cael profedigaeth yn ystod y mis.

Helpu'r Trydydd Byd

Bu eglwysi Llambled a'r cylch yn paratoi cinio er budd y Trydydd Byd dan adain Cymorth Cristnogol yn neuadd eglwys San Pedr ar 30 Medi. Trefnir cinio yn fisol gan aelodau San Pedr a braf oedd gweld aelodau'r eglwysi yn dod at ei gilydd i godi arian at achos mor deilwng. Daeth cynrychiolaeth dda iawn ynghyd i fwynhau pryd o fwyd blasus iawn ac o ganlyniad daeth swm anrhydeddus o £434.30 i law. Diolch i'r chwirydd i gyd a fu'n brysyr yn paratoi ac i bawb am eu cefnogaeth. Gwerthfawrogi'r cyfan yn fawr iawn.

Cymanfa Garolau

Cynhelir Cymanfa Garolau ym Mrondeifi ar Sul 27 Tachwedd am 5.30 o'r gloch yng nghwmni Aelodau a Ffrindiau Adran ac Aelwyd yr Urdd Llanbedr Pont Steffan. Bydd Elonwy Davies yn arwain a gwasanaethir wrth yr organ gan Tanya Davies. Cyflwynir eitemau gan unigolion a chôr yr Adran a'r Aelwyd. Mynediad trwy raglen yn £3, ar werth wrth y drws neu ymlaen llaw gan swyddogion yr Urdd. Bydd elw'r noson at waith yr Urdd yn lleol ac at glefyd Motor Neurone. Estynnir croeso cynnes i bawb. Gwerthfawrogi'r eich cefnogaeth.

Noddfa Llanbedr Pont Steffan

Daeth cynulliad teilwng o aelodau, rhieni a ffrindiau'r achos ynghyd i Noddfa yn ddiweddar i oedfa ddiolchgarwch yr Ysgol



Tîm Pêl-droed cymysg Adran yr Urdd Llambed yn ennill cystadleuaeth y sir i adrannau. Pob hwyl yn y rownd nesaf. Yn y llun - Mr Wyn John [athro], Iestyn, Mari, Grace, Aled, Tomos, Leon ac Osian.

Sul wedi ei llunio gan Janet. Braf oedd gweld 25 yn cymryd rhan yn cynnwys plant, ieuencid a mamau ifanc a phob un ohonynt yn gwneud hynny yn raenus a deallus. Croesawyd pawb yn gynnes gan Teon a chyhoeddwyd yr emynau gan Lisa, Dafydd, Elan a Beca. Bu Sian Roberts Jones a Helen yn darllen salm yr un, Llinos yn darllen emyn o waith Beryl Davies, un o'n haelodau, a Sian Jones yn gweddio. Y llefarydd oedd Dewi, Aron, Tomos Rhys a Hannah. Hefyd cyfoethogwyd y gwasanaeth yn fawr gan unawdau swynol Elan a Lowri Elen, adroddiad hyfryd Gwenllian a sgwrs gyfoes Lisa, Tomos ac Osian Jones yn diolch am ein synhwyrau. Fel arfer, cafwyd gwledd yn gwrando ar yr aelodau ieuengaf sef Lisa, Elan, Beca, Gwenllian, Dafydd, Osian Roberts, Siôn a Rhys Tom yn clodfori Duw am ei holl fendithion mewn pennill a chân gyda'r plant a'r gynulleidfa wrth eu bod.

Ar gais nifer o'r aelodau, pleser unwaith eto oedd gwrando ar eitem gerddorol arbennig gan y merched, sef cân hyfryd o waith Verina Matthews "Galw Samuel". Yr unawdwyr oedd Beca, Elan, Lisa, Hannah, Alwena a Delyth. Cyflwynwyd y gân yn gyhoeddus am y tro cyntaf yn Oedfa Ddathlu hanner can mlynedd o weinidogaeth ei phriod, y Parch Hugh Matthews, yn Noddfa yn ddiweddar. Yr organyddes oedd Ann a bu Alwena, Janet a Llinos yn cyfeilio i'r plant.

Mynegodd Janet ei gwerthfawrogiad cynnes i bawb am eu gwaith ardderchog ac i'r rhieni am eu cefnogaeth a'u cydweithrediad parod bob amser. Hynny sydd yn sicrhau llwyddiant yr Ysgol Sul a gynhelir ers blwyddyn bellach ar nos Wener o 4 hyd 5 o'r gloch. Hefyd, dymunodd yn dda i

Aron o Fethel sydd wedi ei ddewis yn un o wyth gwirfoddolwr ifanc i gymryd rhan mewn projectau arbennig yn ne Cambodia ym mis Tachwedd, sef "Newid Byd". Edrychwn ymlaen at weld hanes y daith ar S4C. Talodd ein gweinidog, y Parch Jill Tomos, ddiolch diffuant i Janet am ei pharatoadau trylwyr yn ôl ei harfer. Yn lle dod â ffrwythau eleni, penderfyniad aelodau'r Ysgol Sul oedd casglu tuag at ward y plant yn Ysbyty'r Waun, Caerdydd lle bu Elan am gyfnod ym mis Gorffennaf. Roedd pawb yn falch o'i gweld yn cymryd rhan yn yr oedfa. Aeth y gynulleidfa tuag adre gan werthfawrogi cyfraniad gwerthfawr a chlodwiw y plant a'r bobl ifanc wrth arwain yr eglwys i gydnabod haelioni Duw.

Datganodd ein gweinidog ei llawenydd mawr mewn oedfa yn ddiweddar wrth groesawu dau aelod newydd, sef y Parchedig Athro Densil Morgan a'i briod, Ann. Bu'r ddau yn aelodau ffyddlon a gweithgar iawn ym Mhenuel, Bangor a phleser a baint yw eu cael yn rhan o eglwys Noddfa. Braf oedd gweld Ann yn gwasanaethu wrth yr organ yn oedfa'r ifanc.

Gyrfa Chwist - Cartref Hafan Deg

Gyrfa Chwist 12fed o Hydref Enillwyr fel a ganlyn - Dynion: 1af. Ifan John Jones, Brohenllys, Felinfach, 2il. Richard Stevens, Heol y Goedwig, Llambled, 3ydd. John Jones, Llambled. Merched: Cydradd 1af. Gwen Davies, Llanwnnen a Beryl Roach, Brohenllys, Cydradd 2il. Nanna Davies, Stryd Newydd, Llambled a Cathrina Davies, Aberaeron, Carden Miniature: Dynion. Edward Lockyer, Hafan Deg, Merched. Mary Jones, Llambled, Bwrw Allan: Enillwyr. Richard Stevens a Nanna Davies, 2il. Dai Davies, Cellan a Beryl Roach.

Ceris Morgan
yn trin gwallt yn eich cartref



Tori a sychu, steilo a lliwio,
ewro a gosod gwallt ar gyfer
achlysuron arbennig.

Prisau rhesymol a
Diwrnod gostyniad i'r henoed
Ffoniwch: 07738 492613

Cwmann
ond yn barod i deithio'r ardal.

W.D. Lewis
a'l Fab

Masnachwyr / Amachyddol
Agricultural Merchants

Melin Mark Lane Mill

Llanbedr Pont Steffan
Ceredigion SA48 7AG

Tel: 01570 422540
Fax: 01570 423644
www.wdlewis.co.uk

Hefyd yn
Broneb Stores
Pumsaint, Llanwrda
Tel: 01558 650215



Creative Cove

40A Y Stryd Fawr,
Llambled, ☎ 421985



Ystod eang o offer swyddfa
a deunyddiau celf a chrefft
am brisau cystadleuol iawn.

Yn cynnwys:

- Certris inc a deunyddiau cyfrifiadurol eraill, - cardiau cyfarch,
- mapiau arolwg ordnans,
- deunyddiau postio a phacio,
- deunyddiau gwneud cardiau a llyfrau lloffion, - pecynnau crefft i oedolion a phlant, - paent Winsor a Newton,
- padiau brasluniau arlunwyr, cynfas a phapur dyfriliw.

Cefn-hafod

Gorsgoch

☎ 01570 434238



Dewch i fwynhau mewn awyrgylch Gymreig a chartrefol. Cewch ddewis eang o fwyd cartref blasus a chwrw da.

Croeso cynnes oddi wrth
Geraint, Eiddwen a'r teulu.

Arbenigwyr mewn bariau symudol at unrhyw achlysur allanol a dawnsfeydd ysgubor.

WILLIAMS & BOURNE

CYFREITHIWR,
COMISIYNYR LLWON

Trosglwyddiadau a phob
gwasanaeth cyfreithiol.
Ymweliadau â'r cartref yn bosibl.

**1 Sgwâr Harford,
Llambled**

☎ 01570 422206 ☎ 01570423540

A thrwy apwyntiadau yn Nhregaron, Llanybydder,
Castell Newydd Emlyn a Chaerfyrddin.

Llanbedr Pont Steffan

Dathliad Arbennig

Braf oedd gweld cynulliad teilwng iawn wedi dod ynghyd i Noddfa o bob cwr o'r wlad i ymuno mewn achlysur arbennig sef Oedfa Ddathlu 50 mlynedd o Weinidogaeth y Parchedig Hugh Matthews. Bu'n ddiwrnod o lawenydd mawr yn hanes Bethel, Caersalem a Noddfa. Croesawyd pawb yn gynnes iawn gan ein gweinidog, y Parch. Jill Tomos, yn cynnwys cyfeillion o Gaersalem Newydd, Treboeth lle y magwyd Hugh a'i godi i'r weinidogaeth; o eglwys Castle Street, Llundain lle yr aeth yn weinidog wedi gadael cylch Llambod yn 1968, ac o Goleg yr enwad yng Nghaerdydd lle bu'n ddarlithydd ac yn bennaeth nes ymddeol o waith amser llawn. Braf hefyd oedd cael cwmni rhai a fu'n blant yn y Cylch adeg ei weinidogaeth. Cyhoeddwyd yr emynau gan Eddie Thomas, Bethel, Mesach a June Williams, Caersalem ac Alun Williams, Noddfa. Bu Llinos Jones, Noddfa yn darllen rhan o'r Gair ac Owena Uridge, Bethel yn gweddio.

Cyflwynwyd cyfarchion ar ran Undeb Bedyddwyr Cymru gan y Llywydd, Mr. Glyndwr Prideaux ac ar ran y dre gan y Parchedig Goronwy Evans a fu'n weinidog yn ystod cyfnod Hugh. Mwynhawyd yr eitem gerddorol yn fawr iawn gan bawb ond yn arbennig gan Hugh a Verina oherwydd mai cân hyfryd o waith Verina sef "Galw Samuel" oedd gan y merched ac yn cael ei chanu yn gyhoeddus am y tro cyntaf gyda Janet yn cyfeilio.

Y Parchedig Hugh Matthews fu'n pregethu a chofio oedd ei thema, gan sôn am ddigwyddiadau personol a doniol yn y cylch cyn troi at y testun "Cofia gyfodi Iesu Grist o had Dafydd, o feirw, yn ôl f'engyl I", allan o 2 Timotheus.

Bu canu gorfoleddus ar yr emynau, yn cynnwys gwaith aelodau Noddfa, sef y diweddar Parchedig W.J. Gruffydd a geiriau Beryl Davies o'i chyfrol "Emynau'r mynydd a dylanwadau bore oes". Roedd Beryl wedi ychwanegu'r pennill canlynol at y rhai gwreiddiol yn arbennig ar gyfer yr achlysur:

Diolch, Arglwydd, am it alw
Hugh yn ieuanc iawn i'n plith
Yng Nghaersalem, Bethel, Noddfa
I daenellu'r nefol wlith.
Diwyd fu, gyda ni,
Yn frwdfrydig drosot Ti.

Traddodwyd y fendith gan Y Parchedig Glan Roberts a'r organyddes oedd Alwena Evans.

Yn dilyn yr oedfa aeth pawb draw i festri Brondeifi i fwynhau te ardderchog wedi ei baratoi gan chwiorydd y tair eglwys cyn bod Hugh a Verina yn torri'r gacen hardd.



Yng nghinio Cadeirydd Cyngor Ceredigion yng Ngholeg Llambod anhryddwyd Aneurin Davies, Tynffynnon, Maestir am ei wasanaeth i Gyngor Bro Llanwnen, a chynghorau eraill, cyn hynny am 46 mlynedd. Bu'n gyfle hefyd i gydnabod ei waith yn ysgrifennydd Capel Soar; ei waith gyda Sioe Llambod ac Eisteddfod Thomas James Pantyfedwen Llambod ac i nifer o fudiadau eraill yn yr ardal. Cyflwynwyd Tlws Grisial Arwyr Cymunedol Ceredigion 2011 iddo gan y Cynghorydd Catherine Hughes, Cadeirydd Cyngor Sir Ceredigion. Hefyd yn y llun mae'r Cyng. Rowland Jones a Simon Middlehurst, Is Olygydd y Cambrian News

Talodd y Parch Hugh Matthews deyrnged uchel i'r Parch Jill Tomos, swyddogion ac aelodau'r cylch am eu trefniadau rhyfeddol a oedd wedi sicrhau diwrnod i'w drysori am byth iddo ef a Verina.

Dymuna'r Parch Jill Tomos ac eglwysy'r cylch ddiolch yn gynnes iawn i'r Parch. Goronwy Evans a swyddogion Brondeifi am ddefnydd y festri.

Diolch

Dymuna John a Morwen Morgan ddiolch am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniwyd ar achlysur eu Priodas Aur yn ddiweddar. Diolch o galon i bawb.

Rhifyn mis Rhagfyr
Yn y Siopau
1af Rhagfyr

Erthyglau, Newyddion
a Llundiau i law erbyn
21ain Tachwedd



Cyflwynwyd rhodd i Hugh ar ran y tair eglwys gan Nesta Harries a basgedaid o flodau hardd, lliw aur i Verina gan Lisa, Elan a Beca.

Cafwyd nifer o gyfarchion a chyfle i sgwrsio a hel atgofion.

DEDDF YR IAITH GYMRAEG 1993

YMGYNGHORIAD CYHOEDDUS AR GYNLLUN IAITH GYMRAEG DRAFFT

o 24 Hydref 2011 i 19 Rhagfyr 2011

PRIFYSGOL CYMRU Y DRINDOD DEWI SANT

Mae Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant wedi paratoi Cynllun Iaith Gymraeg sy'n egluro sut y bwriadwn ddarparu gwasanaethau i chi yn Gymraeg. Gwahoddwn sylwadau gan aelodau Cymraeg ac aelodau eraill o'r cyhoedd y gall y cynllun effeithio arnynt.

Gellir lawrlwytho copi yn rhad ac am ddim o: www.ydds.ac.uk/cy/cynlluniaiathgymraeg neu gellir cael copi caled drwy gysylltu ag: Andrew Currie, Cydlynnydd Gwasanaethau Cymraeg, Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant, Caerfyrddin SA31 3EP 01267 676846 a.currie@ydds.ac.uk

Dylid anfon unrhyw sylwadau at Andrew Currie erbyn 19 Rhagfyr 2011

Ar sail y sylwadau, byddwn yn paratoi adroddiad i'w gyflwyno gyda'r Cynllun terfynol i Fwrdd yr Iaith Gymraeg ar gyfer cymeradwyaeth



PRIFYSGOL CYMRU
Y Drindod Dewi Sant
UNIVERSITY OF WALES
Trinity Saint David

www.ydds.ac.uk/cy/cynlluniaiathgymraeg
01267 676846 a.currie@ydds.ac.uk

Swdocw

Sut i chwarae – Rhaid i chi gwblhau'r grid gyda phob colofn, pob rhes a phob boc yn cynnwys y rhifau 1-9

Enw _____
Cyfeiriad _____
Cod post _____
Rhif Ffôn _____

Atebion i: Tŷ Cerrig, Cwmann, SA48 8ET
Gwobr: Pecyn Nwyddau Clonc
I'r ateb cywir cyntaf allan o'r het.

	8		9	1		
1				4		
	4	9				7
3				6		7
7	6		5		3	8
		8		7		6
5					4	3
			2			9
		4		8		1

Atebion Swdocw mis Hydref:

Llongyfarchiadau i: Ann

Evans, Garej Derwen,

Harford, ac i bawb

arall am gystadlu: Betty

Morris, Bro Mihangel,

Felinfach; Avril Williams,

Y Fedw, Cwmann;

Shirley Walker, Heol-

y-Gaer, Llanybydder;

Hugh Evans, Coedparc,

Llanybydder; Bethan Williams, Neuadd

Fryn, Llanybydder; Joan Stacey, Tynwaun, Ffaldybrenin;

Glenys Davies, Gelli Aur, Llanybydder; Betty Prydderch,

Tyngrug, Llanllwni ac Augusta Davies, Kings Mead, Llambod.

7	8	2	3	4	6	1	9	5
1	3	9	2	5	7	4	6	8
4	6	5	1	9	8	3	2	7
3	4	7	5	6	9	2	8	1
2	9	6	8	3	1	5	7	4
5	1	8	7	2	4	9	3	6
6	5	4	9	7	3	8	1	2
8	7	3	4	1	2	6	5	9
9	2	1	6	8	5	7	4	3

Melinau Gwynt


Hyd yn hyn, mae'r rhan fwyaf o drafodaethau Grŵp Achub Mynydd Llanllwni wedi canolbwyntio ar y difrod parhaol i'r amgylchedd a fyddai'n cael ei achosi'n lleol pe bai bwriad cwmni RES i godi 21 o felinau gwynt ar Fynydd Llanllwni yn dod i rym. Dyna'r rheswm sylfaenol dros fodolaeth y grŵp.

Ond yn ystod yr wythnosau diwethaf rydym wedi ystyried effeithiau gosod dros 60 o felinau gwynt ychwanegol yn y cornel hwn o ogledd Sir Gaerfyrddin. Dyna fyddai'r sefyllfa pe byddai bwriadau cwmni o'r enw RWE Npower Renewables yn cael rhwydd hynt i'r dwyrain o Alltwalis (Cynllun Gorllewin Fforest Brechfa, 28 tyrbein) ac i'r gogledd o Abergorlech (Cynllun Dwyrain Fforest Brechfa, 12 tyrbein). Ac fe wêl pawb sy'n teithio ar hyd yr A485 mor annerbyniol yw cynllun presennol Statkraft ym Mlaengwen.

Petai'r cynlluniau pellach hyn yn cael eu cymeradwyo, byddai angen llinellau trydan newydd er mwyn cysylltu'r safleoedd hynny i'r Grid Trydan Cenedlaethol. Rhes o beilonau'n brasmu ar draws gwlad o gyffiniau Gwyddgrug yng ngogledd Sir Gaerfyrddin i gyffiniau Gorseinon yn Sir Forgannwg.

Mae'r ddelwedd a gynnigir y mis hwn yn dangos llwybr tebygol y peilonau. Mae'n wedd arall ar y llygrydd tawel ac yn cynyddu'n fawr y cyfrifoldeb ar bawb yn y sir hon ac ar ein cymdogion yn Sir Forgannwg. Mae'r cyfrifoldeb ar ysgwyddau ein cynghorwyr sir a'n cynllunwyr sirol a chenedlaethol yn drymach fyth. Rhaid ond gobeithio eu bod yn atebol i'r her.

John Jones, Talardd a Hengae, yw cadeirydd y mudiad a ffurfiwyd yn Llanllwni i wrthsefyll bwriad cwmni RES. Gellir cysylltu â John am wybodaeth bellach ar 01559 395309 johnallanjones@yahoo.co.uk



Carpedi

Gwyn Lewis

Cyf

Cyflenwi a gosod:
Carpedi a Feinyl, Lloriau Diogel,
Cladinau Wal,
yn ogystal â Gwelyau,
Pennau Gwelyau a Rygiau.

43 Stryd y Bont
LLANBEDR PONT STEFFAN
Ffôn a Ffacs: 01570 423984
Adref: 01570 423349

Cegin Coedlannau

'Bwyd cartref ar gyfer
pob achlysur'

* Cacenau pen-blwydd gyda llun
(ffotograff)

* Bwffe mawr neu fach

* Danteithion i de

* Pwdinau

* Arlwyio ar gyfer pob achlysur



Sirian Davies, Coedlannau

Fach, Cwrtnewydd,


01570 434 243

07815 962 045

Ffenest

Y FFENEST

Dyma nifer o gordiau newydd i chi eu dysgu. Sylwch, lle mae "X" uwchben unrhyw un o'r tannau, ni ddylech eu taro. Er enghraifft, yn y ffenest am gord D, mi welwch ddau "X" – un uwchben E(6) ac un uwchben A(5). Mae'r rhain yn dynodi mai dim ond y pedwar tant sy'n weddill y dylid eu taro/strymio.



Ymarfer Llaw Dde

Cord C - Bawd i daro'r A(5); wedyn bysedd 1,2,3 i blycio'r tannau G(4), B (5) ac E (1) gyda'i gilydd.

Cord D7 - Bawd i daro'r D (4); wedyn bysedd 1,2,3 i blycio.....(fel uchod)

Cord G - Bawd i daro'r E (6); wedyn bysedd 1,2,3 i blycio.....

Cord A7 - Bawd i daro'r A (5); wedyn bysedd 1,2,3 i blycio...

Am chenji, tarwch fawd ar y tant bas a brwsiwch y bysedd llaw dde i lawr dros weddill y tannau.

Cofio Jan

Teithiodd dros 400 o bobl o bell ac agos i eglwys San Pedr ar 8 Hydref i dalu'r gymwynas olaf i Jan Harris priod annwyl Hag a mam ofalus Daniel, Jo a Tomos. Brwydrodd yn ddewr yn erbyn yr afiechyd Motor Neurone ond er gwaetha'r problemau i gyd parhau yn siriol wnaeth Jan hyd y diwedd. Wedi ei geni yng Ngogledd Llundain daeth fel myfyrwraig aeddfed i'r Brifysgol yn y dref yn 1978 ac ymhen ychydig cyfarfu â Hag, ac yn ôl y dywediad, mae'r gweddill yn hanes. Mae'r ddau yn haeddu canmoliaeth uchel am fynd ati o ddiffri i feistrol'r iaith Gymraeg gan wneud hynny yn llwyddiannus iawn. Bu Jan yn weithgar iawn yn y gymuned ac roedd yn uchel ei pharch gan bawb. Roedd yn berson caredig, annwyl, hawddgar, poblogaidd iawn, hapus a chymwynasgar a phob amser yn gefnogol iawn i holl weithgareddau'r dref mewn gair a gweithred. Bu'n aelod ffyddlon a brwd o gangen Merched y Wawr Llambled ar hyd y blynyddoedd gan gystadlu'n llwyddiannus iawn yn adran y dysgwyr yng ngwyliau haf y Mudiad. Cipiodd wobrau hefyd am ei gwaith yn yr Eisteddfod Genedlaethol ar sawl achlysur yn cynnwys y wobr gyntaf ym Mhrifwyl Abergele am ysgrifennu stori addas ar gyfer dysgwyr. Yn ogystal â hynny, cyhoeddwyd deialog o'i gwaith mewn cyfrol o ddarnau difyr i ddysgwyr sef "Stori a Mwy" gan Wasg Gomer yn 2003. Bu'n weithgar gyda'r grŵp Ti a Fi Lleol, cylch Meithrin Cwmman ac Ysgol Sul Noddfa a chyda mudiadau fel y Sgowtiaid. Roedd Jan yn berson galluog iawn ac ymhlith ei diddordebau roedd cerddoriaeth, arlunio a barddoniaeth. Darllenwyd darn o farddoniaeth gelfydd a theimladwy yn ei hangladd a ysgrifennwyd ganddi eleni yn clodfori'r Gwanwyn.

Yn seremoni sefydlu ei phriod Hag yn Faer y dre ym mis Mai eleni roedd Jan yn llawenhau wrth gael ei hanrhydeddu yn Faeres. Wedi iddi dderbyn ei chadwyn cododd y gwahoddedigion i gyd a chymeradwyo'n frwd fel arwydd o'u parch tuag ati a hithau yn amlwg wrth ei bodd yn mwynhau bob eiliad. Yn rhinwedd ei swydd fel Maeres bu'n bresennol mewn nifer o ddigwyddiadau'r dref yn ystod yr haf yn cynnwys y Carnifal, y Ffair Fwyd ac Eisteddfod Rhys Thomas James Pantyfedwen ar y Sadwrn a'r Llun a chael pleser mawr wrth sgwrsio â ffrindiau.

Diolch am ei gwasanaeth a'i chyfraniad gwerthfawr i fywyd y dref ac am ei brwdfrydedd heintus dros yr iaith Gymraeg. Bu'n ysbrydoliaeth ac yn esiampl i bawb. Coffa da amdani. Braint arbennig oedd ei hadnabod.



REFLEXOLOGY

Gall y driniaeth yma eich helpu, os ydych yn dioddef o'r canlynol:

* Blinder / diffyg egni

* Meigrin

* Sciatica

* Irritable Bowel Syndrome

* Menstrual problems

* a mwy

Os am rager o wybodaeth
cysylltwch â Carol Rees

01545 590164

07929 559561

Tim Jones



Ffotograffydd

Llainwen, Rhodfa Glynhebog
Llanbedr Pont Steffan

01570 422644

Oes angen cyngor arnoch?

Mae gennym arbenigedd cyfreithiol mewn sawl maes, megis:-

1. CYFRAITH TIR,
2. EWYLLYSIAU A'U PROFANT,
3. TRETH ETIFEDDIAETH A MODD I'W LEIHU,
4. GWAITH LLYS O BOB MATH.

Os hoffech fwy o wybodaeth mae croeso i chi gysylltu â ni.

ADVE

ARNOLD DAVIES VINCENT EVANS
CYFREITHWYR

33 Stryd Fawr, Llambled
01570 422517 01570 423244

Alec Page Gof



Gwaith metal o safon
i'r tŷ a'r ardd.

Dewch i drafod eich syniadau.

Yr Efail, Barley Mow,
Llambled.

01570 423955

COMPASS OFFICE SUPPLIES



Am eich holl
ddeunydd swyddfa

Uned 19, Stâd Ddiwydiannol
Llambled, Heol Tregaron,
Llambled.

☎ 01570 422955
☎ 01570 422232

T. Emyr Jones Adeiladwr



Araul, Cwmann

☎ 01570 423921
☎ 07867 945174

CANOLFAN ADDURNO

**AA
A**

Dewis arbennig o bapur, paent ac
offer i wneud addurno yn bleser.

Llyfrau Patrwm, Offer llaw a
phwerau, Polion a thraciau llenni,
gwasanaeth torri allwedd i
pheiriannau cymysgu paent
Dulux a Leyland.

Arbenigedd ar garreg eich drws.
3 Stryd y Bont
Llanbedr Pont Steffan
01570 423156

Cludfwyd Indiaidd NEHAR



Y bwyd wedi ei goginio'n fres bob dydd.

15% o ostyngiad
ar archebion dros £10.00.

Y cogydd â dros 20 mlynedd o brofiad o
weithio mewn sefydliad indiaidd.

10 Stryd y Bont, Llambled
☎ 01570 422893 / 422175

Pencarreg

Genedigaeth

Llongyfarchiadau i Siôn a
Heiddwen Tomos, Dôl-Mebyd
ar enedigaeth eu merch fach sef
Tirion Marged. Chwaer fach i
Gruffydd a Swyn. Pob dymuniad
i chwi fel teulu ac hefyd i
mam-gu a dad-cu sef Lynda a
Gwynnaf, Dolgwm Uchaf.

Ar wellhad

Da yw deall bod bachgen bach
Chloe a Huw, Maescanol, sef
Jay yn gwella ar ôl treulio rhai
diwrnodau yn Ysbyty Glangwili
gyda'r gofal gorau posibl.

Croeso adref hefyd i Megan,
baban bach Dafydd a Rachael
Thomas, Dôlwar-fach, hithau
hefyd wedi treulio amser yn
Ysbyty Glangwili lle cafodd ofal
arbennig gan y doctoriaid a'r
nyrsys.

Cefn Gwlad

Mae cyfraniad Dai Jones,
Llanilar yn amhrisiadwy i wylwyr
S4C. Diolch iddo am gyflwyno
i ni sut amrywiaeth o bobl
ddiddorol a'u gwahanol ffordd o
fyw. Yn ddiweddar, cawsom ail
ddarllediad o'i ymweliad â theulu
Fron-Deg ym Mhencarreg, sef
Emyr Jacob, ei wraig Delyth a'u
plant Caryl ac Owain.

Roedd yn rhaglen arbennig yn
dangos bywyd prysur Emyr a'r
teulu. Mae'n amlwg bod Emyr
nid yn unig yn fore godwr yn ei
swydd fel postman ond hefyd yn
ôl yr hen ddywediad yn 'fore ar
ôl codi', ei ddiwrnod yn llawn
amrywiaeth a diddordebau.

Rhwng y da duon Cymreig, y
ffowls, y moch, y defaid gyda'r
holl waith bugeilio a'r ceffylau
bach Shetland, mae Emyr yn
fishi. Da iawn Emyr, Delyth a'r
plant -mae bywyd cefn gwlad yn
ddiogel yn eich dwylo chi. Pob
lwc i'r dyfodol.

Bore Coffi

Cynhelir Bore Coffi ar y 12fed
o Ragfyr yn Neuadd Sant Iago,
Cwmann i ddechrau am 10.30y.
b. Bydd yr elw yn mynd tuag at
Eglwys Sant Padrig, Pencarreg.
Bydd yno amrywiol stondinau ac
fe'i agorir gan y Canon Wynzie
Richards. Dewch i gael sgwrs
dros gwpaned a chyfle i weld hen
ffrindiau. Croeso cynnes i bawb.

Os ydych yn ymateb i
hysbyseb yn CLONC,
dywedwch wrth
y cwmni ymhle y
gwelsoch yr hysbyseb.

Llanybydder



Ada Williams, Llanybydder a ddathlodd ei phen-blwydd yn gant yn
ddiweddar yn cyflwyno sic am £930 i Dilys Megicks, Rheolwr Canolfan
Ddydd Hafan Deg, Llanbed, sef yr arian a dderbyniodd yn lle anrhegion
adeg ei phen-blwydd. Yn y llun hefyd, o'r chwith, mae Mair James, Tegwen
Griffiths a Sue Jones, staff y Ganolfan Ddydd; Owen Davies a Betty Jenkins-
Davies, merch a mab yng nghyfraith Mrs. Williams.

Priodas Ruddem

Llongyfarchiadau i Dilwyn ac Ann Gibby, Erwlun ar ddathlu eu Priodas
Ruddem yn ystod y mis. Iechyd da i chwi am flynyddoedd eto.

Taith i'r Ffindir

Ym mis Tachwedd diwethaf, bwm mor ffodus â chael fy newis i
gynrychioli Mudiad y Ffermwyr Ifanc ar daith i'r Ffindir am bythefnos.

Dechreuais fy nhaith yn Helsinki yng nghwmni Elizabeth Harries o Sir
Gâr (a oedd yno'n cynrychioli'r CFfl hefyd), Liina (a oedd yn gweithio i'r
mudiad 4H yn y Ffindir), a dwy ferch oedd ar deithiau tebyg i ni o'r Swistir.
Cawsom gyfle i weld yr holl atyniadau yno, gan gynnwys ymweld ag un
o'r cannoedd o ynysoedd bach oddi ar arfordir y wlad, ac wrth gwrs cafwyd
cyfle i wneud tamed bach o siopa! Ond ar ôl cwpwl o ddiwrnodau yn y
brifddinas, cyrhaeddodd y diwrnod mawr, y diwrnod cwrddais â'r teulu oedd
yn fy ngwesteia.

Roeddwn mor lwcus o gael aros efo'r teulu Kekkonen, sef Tapani,
Minna, Paula a Leena. Gwnaethon nhw sicrhau o'r diwrnod cyntaf fy mod
yn mwynhau fy amser yno, a fy mod yn cadw'n fishi! Tra fy mod yn eu
cwmni nhw bwm yn brysus gan wneud nifer o wahanol weithgareddau gan
gynnwys sauna bob nos (roedd gan bron pob un teulu sauna yn eu tai!), blasu
eu diwylliant, a sawl trip i drefi lleol fel Hollola, Porvoo a Lahti. Roedd
y saunas yn bwysig iawn i'r bobl Ffinneg, ac er mai dim ond 5 miliwn yw
poblogaeth y wlad, mae 2 filiwn o saunas yno! Cefais hefyd fynd i'w clwb
4H nhw, sef cyfwerth y Ffindir â'r CFfl. Ond roedd aelodau 4H yn iau ar y
cyfan nag aelodau y CFfl.

Ond er hyn i gyd, uchafbwynt fy nhaith yn y Ffindir yn sicr oedd
penwythnos Gŵyl Canol

Haf. Mae'r cyfnod
hwn yn bwysig iawn i
bobl y Ffindir, ac mae'r
rhan fwyaf ohonynt yn
mynd gyda'u teuluoedd i
fythynnod haf ger un o'r
187,888 o lynnoedd sydd
yn y wlad. Treulio ein
hamser wrth y tân, yn
cymdeithasu, dawnsio,
yn y sauna (gan neidio'n
syth mewn i'r llyn
wedyn!) ac rwyf wedi
darganfod diddordeb

newydd – pysgota! Dwi'n siwr medrwn i enwi pob un pysgodyn sydd yn y
Ffindir, gan fy mod wedi gweld y rhan fwyaf ohonynt! Yn anffodus, nid fi
wnaeth eu dal nhw, dim ond y rhai lleiaf!

Rydwi i mor falch fy mod wedi cael y cyfle hwn i fynd ar daith dramor, ac
mae cynnig yno i mi ymweld â'r teulu eto yn y dyfodol. Pwy a wŷr, efallai
gwnaf i ddychwelyd, byddwn i wrth fy modd!



Ysgol Campws Llanbedr Pont Steffan

Ffynnonbedr

Mae disgyblion blwyddyn 5 Cothi yn brysur yn gweithio ar gywaith animeiddio dan arweiniad Helen Duffy ac yn cael tipyn o hwyl wrth wneud y gwaith. Bu nifer o ymwelwyr yn yr ysgol yn ddiweddar, rhai o Lesotho, Sweden a Ffrainc - yn blant ac yn staff - a chafodd rhai o'r disgyblion gyfle i'w cyfarfod. Hefyd, bu'r ysgol yn croesawu staff o wledydd Awstria, Sbaen, yr Eidal, Ffrainc, Iwerddon ac o Ysgol y Ddwylan Castell Newydd i'n plith yn rhan o gywaith Comeniws. Cyn yr ymweliad, bu'r disgyblion yn brysur yn dysgu am y gwahanol wledydd ac yn paratoi arddangosfeydd ar eu cyfer. Bu Wenna Howard yn trefnu gweithgareddau a oedd yn hybu ein diwylliant ni fel Cymry ar eu cyfer a chafwyd gwasanaeth hyfryd gyda chôr yr ysgol yn canu, disgyblion o flynyddoedd 4 a 5 yn dawnsio gwerin, Charlotte yn canu, Lowri Jones yn canu'r delyn a phob disgybl yn canu cân yr ysgol. Roedd yr ymweliad yn llwyddiant ysgubol a diolch i Wenna ac i bawb a fu'n cynorthwyo mewn unrhyw ffordd.

Cafodd disgyblion blynyddoedd 1 a 2 lawer o hwyl yng nghwmni Gwenda Owen yng ngweithgaredd Sbri-diri a drefnwyd gan yr Urdd yn ddiweddar.

Cynhaliwyd gwasanaeth arbennig yng ngofal y Cyngor Ysgol a nodwyd ganddynt beth oedd wedi cael ei drafod yn ystod eu cyfarfodydd hyd yn hyn. Diolch i'r aelodau i gyd o'r sector Cynradd ac Uwchradd.

Bu Charlotte Saunders yn canu unawd ar raglen Noson Lawen yn ddiweddar ynghyd â rhai o ddisgyblion yr ysgol sy'n aelodau o Gôr Dwyntant. Bydd y rhaglen yn cael ei darlledu yn rhyngor y Gwanwyn.

Llongyfarchiadau i Rhys Tom ar ennill cystadleuaeth tynnu llun gyda'r Cambrian News ac i'w frawd Sion Ifan ar ddod yn drydydd. Llwyddodd y bechgyn i ennill llyfrau a phrecynau o weithgareddau i'w ffrindiau yn y dosbarth.

Bu Lois Price ac Osian Jones yn cynrychioli'r ysgol mewn cyfarfod yn Felinfach lle'r oeddent yn cyflwyno Cynllun Strategaeth Plant Ceredigion.

Bu cwmni Arad Goch yn yr ysgol yn cyflwyno sioe i ddisgyblion blynyddoedd 4 Aeron, 5 Cothi a 6 Grannell ac roedd safon y perfformiad yn uchel tu hwnt fel arfer.

Diolch yn fawr i'r Parchedig Matthew Hill am ddod atom i gynnal Cwrdd Diolchgarwch a phenderfyniad y Cyngor ysgol oedd cyflwyno'r casgliad i'w rannu rhwng y Ganolfan Deuluol yn Llambod ac Operation Christmas Child.

Yr Ysgol Gyfun

Llongyfarchiadau mawr i Caleb Davis a Christopher Barker (y ddau yn ddisgyblion ym Mlwyddyn 10) ar eu perfformiadau ardderchog yng Nghystadleuaeth Ddadlau CEWC Cymru yn ddiweddar. Cynhaliwyd y

gystadleuaeth yn Ysgol Dyffryn Taf eleni ar 28 Medi ac roedd timoedd o wyth ysgol gyfun yn cystadlu yn rownd siroedd Caerfyrddin, Ceredigion a Phenfro. Derbyniodd Christopher a Caleb glod y beirniaid am eu gwaith tîm ardderchog a'u dewrder wrth wynebu aelodau o'r chweched dosbarth fel gwrthwynebwyr. Testun y ddadl oedd 'Cred y tîm hwn bod plant Prydain â bywydau gwell na'r plant hynny sy'n byw mewn gwledydd sy'n datblygu'. Rhaid oedd i dîm Ysgol Llanbedr ddadlau yn erbyn y gosodiad yma. Tîm Ysgol Syr Thomas Picton yn Sir Benfro oedd yn fuddugol a byddant hwy yn mynd ymlaen i rownd nesa'r gystadleuaeth ymhlen rhai wythnosau.

Bu grwpiau Cerdd TGAU a Lefel A yn Neuadd Goffa Aberaeron ar y 30ain o Fedi mewn gweithdy yn gwrando ar y Pedwarawd Llinynnol Brodowski - ensemble proffesiynol o Lundain; roedd yn gyfle hefyd i dderbyn syniadau ar gyfer Cystadleuaeth Cyfansoddwr Dyfed. Derbyniwyd tips gan y cyfansoddwr gwadd Peter Reynolds. Roedd yn sesiwn ddiddorol iawn gyda holl ddisgyblion Cerdd Ceredigion yn bresennol ac elwodd y disgyblion yn fawr o glywed ensemble proffesiynol yn perfformio amryw o weithiau o bob cyfnod cerddorol.

Llongyfarchiadau mawr i'r disgyblion canlynol o Ganolfan y Bont a gymerodd ran mewn cystadleuaeth gelf yn Sioe Llambod yn ddiweddar. Cafodd Bethan Lewis, Dylan Jenkins a Joshua Hemming y wobwr gyntaf am eu pêl synhwyraidd 3D (Ein Byd Ni). Cafodd Bethan Lewis, Dylan Jenkins a Joshua Hemming yr ail wobwr am eu llun 2D 'Y Gwanwyn'. Ac yn olaf, cafodd Catrin King, Zac Griffiths a Trevor Rowlands y drydedd wobwr am eu cwpan te 3D.

Ym mis Medi eleni, cafwyd llawer o hwyl yng Nghanolfan Gweithgaredd Llain gyda chriw Ymarfer Corff TGAU Blwyddyn 10. Bu cyfle i weithio fel tîm wrth ddysgu dringo a defnyddio Caiac.

Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf Clwb Ieithoedd Tramor yr ysgol - y clwb 'Bonjour' - yn ystafell 15 ar y 27ain o Fedi. Roedd y cyfarfod cyntaf yng ngofal dwy o aelodau'r Chweched, sef Cari Lake a Beca Creamer. Cafodd y disgyblion, o Fl. 7 - 10, y cyfle i roi eu barn ynglŷn â'r hyn yr hoffent ei wneud yn y clwb. Braff oedd gweld eto eleni'r diddordeb cyffredinol mewn dysgu amryw o ieithoedd. Cafodd y disgyblion y cyfle hefyd i ofyn i aelodau'r Chweched dosbarth pam eu bod wedi penderfynu parhau ag astudio ieithoedd. Cynhaliwyd cystadleuaeth hefyd a bwriedir gwobrwyo'r enillwyr yn y cyfarfod nesaf.

Bu dwy athrawes o Lesotho yn ymweld â'r ysgol yn ddiweddar.



Ar y 24ain o Fedi, aeth 4 ohonom, sef Dewi Uridge, Steffan Roberts, Tomos Williams (11D) a Sam Robson o Aberaeron i'r Bala, ac i Langollen i rasio beiciau mynydd yng nghystadleuaeth Weekend Warriors Red Bull. Roedd y profiad yn fythgofiadwy gan ein bod wedi cael sesiwn hyfforddiant gyda'r teulu Atherton, sef y teulu enwocaf ym myd beicio mynydd, yn ogystal ag addysg wrth Alex Bond a Rob Warner, sylwebydd Cwpan y Byd beicio mynydd. Roedd yna risg sylweddol wrth rasio lawr y mynydd gan fod y tir yn wlyb ac roedd y baw yn drwchus i deithio trwyddo. Ar y dydd Sadwrn cafodd pob tîm eu hyfforddi sut i feicio ar y cysiau cymhleth gan yr Athertons. Ac ar y Dydd Sul, cynhaliwyd y ras ac roedd y 4 ohonom ni yn nerfus gan nad oeddem wedi rasio erioed o'r blaen. Roedd y cwrs yn hollol wahanol hefyd, gan ei bod wedi bwrw llawer o law dros nos. Roedd tîm o bobl broffesiynol yn cofnodi'r amseroedd yn ogystal â chynulleidfia yn gwylio'r cyfan.

Fe wnaethom fwynhau'r profiad yn fawr iawn, ac roedd pawb yn cytuno bod y penwythnos yn un bythgofiadwy! Gobeithio wir cawn gyfle eto i gystadlu.'

Mae ein hysgol ni wedi ei chysylltu ag Ysgol St James, Mokhotlong, Lesotho. Cafodd Mrs Julia Matalasi a Mrs Bernadett Letsie groeso cynnes yn ystod eu hamser yn yr ysgol. Mae'r bartneriaeth yn un gyffrous ac yn gyfle i rannu syniadau a chydweithio. Cafodd yr athrawon o Lesotho gyfle i drafod ac arsylwi gwersi mewn nifer o adrannau yn yr ysgol. Cynhaliwyd nifer o weithgareddau yn ystod yr wythnos. Un o'r uchafbwyntiau oedd cyngerdd 'Mokete' (dathliad yn Basotho.) Cynhaliwyd y 'Mokete' yn Ysgol Dyffryn Taf a bu 12 disgybl o flwyddyn 10 yno i wneud cyflwyniad am Gymru. Llongyfarchiadau iddynt ar eu perfformiad graenus. Roedd y cyngerdd yn ddathliad arbennig o ddiwylliant Cymreig a diwylliant Lesotho.

Bu'r athrawon o Lesotho yn siarad â disgyblion yr ysgol am fywyd yn Ysgol St James ac am eu gwlad.

Diolch i ddosbarth blwyddyn 10 Daearyddiaeth am drefnu bore coffi i ddathlu ein partneriaeth ag Ysgol St James. Diolch i'r disgyblion a'r staff wnaeth gefnogi.

Cafwyd diwrnod llwyddiannus



Bu Aron Dafydd a Sian Elin Williams yn cynrychioli'r ysgol ddydd Gwener Medi'r 30ain yn lansiad y Strategaeth Tlodi Plant, yn Neuadd y Sir Penmorfa yn Aberaeron. Yn ystod y lansiad bu pobl o wahanol sefydliadau yn sôn am effeithiau tlodi ar blant a rhieni sy'n byw mewn teuluoedd incwm isel yng Nghymru, ac am fwriad y Strategaeth i wella'r sefyllfa yma yn y dyfodol agos. Cafodd Aron a Sian Elin y cyfle i leisio eu barn am y strategaeth ac am eu teimladau am dlodi a'i effaith yn ystod y lansiad hefyd.

Yn y Gegin gyda Gareth



Steil i Swper Nos Sadwrn.

Gyda'r Hydref yn bendant yma bellach, y gwynt a'r glaw a'r dyddiau'n byrhau, mae mwy a mwy ohonom, yn ôl yr ystadegau, yn penderfynu aros gartref ar nos Sadwrn, paratoi swper go arbennig a mwynhau arlwy'r teledu.

Wrth feddwl am hynny, rwy'n cynnig pryd 3 chwrs sy'n addas i'w fwynhau ar nos Sadwrn. Gellwch gael ffrindiau a'r teulu draw, a photelaid o win i roi ychydig mwy o steil i'r swper.

Hwyl,
Gareth.

Couscous cyw iâr mewn padell ffrio.

Mae hwn yn bryd arbennig, maethlon a iachus, ac fe fydd yr hyn sydd ar ôl yn addas i wneud cinio yn yr wythnos.

Cynhwysion.

Llund llwy fwrdd o olew'r olewydd
Un winwsyn wedi'i sleisio'n denau
200 gm (8 owns) o frest cyw iâr wedi'i ddarnio
Tamaid diogel o wreiddyn sinsir ffres
1 neu ddwy llond llwy fwrdd o bast harissa ac
ychydig yn rhagor wrth weini.
10 o fricyll sych
Tun 220 gm o chickpeas wedi'u golchi
200 gm (8 owns) couscous
200 ml (7 owns hylifol) o stoc cyw iâr twym
Dyrnaid o goriander wedi'i ddarnio i'w weini



Dull

1. Cynheswch yr olew mewn padell ffrio fawr ac ychwanegwch y winwsyn am 1 – 2 funud nes iddo feddalu. Ychwanegwch y cyw iâr a ffriwch am 7 – 10 munud nes eu bod wedi coginio trwodd a'r winwsyn yn euraid. Gratiwch y sinsir dros y cyfan, cymysgwch yr harissa dros y cyfan a choginiwch am funud yn ychwanegol.

2. Ychwanegwch y bricyll y chickpeas a'r couscous, arllwyswch y stoc cyw iâr dros y cyfan, trowch unwaith. Rhowch gaead dros y badell ffrio neu ei gorchuddio â ffoil am 5 munud nes bod y couscous wedi sugno'r stoc a wedi meddalu. Ewch â fforc dros y couscous a gwasgarwch y coriander dros y cyfan. Gweinwch gydag ychwaneg o harrisa os y dymunwch.

Pasta gyda Mecryll a Chennin

(Mae hwn yn bryd cyflym i'ch digoni.)

Cynhwysion

2 genhinen wedi'u golchi a'u sleisio
25 gm o fenyn
6 owns o basta
Pot 200 ml o Creme fraiche
1 llond llwy fwrdd o gaprys (capers)
2 ffled o fecryll (wedi tynnu'r esgryn a'r croen a'u darnio)
25 gm o friwsion bara



Dull

1. Ffriwch y cennin yn y menynd am tua 10 – 15 munud nes yn feddal. Yn y cyfamser berwch y pasta a rhowch y gril ymlaen.
2. Ychwanegwch y creme fraiche y caprys a'r mecryll. Cynheswch am funud.
3. Dreiniwch y pasta ac ychwanegwch at y y gymysgedd.
4. Ychwanegwch bupur a halen cyn troi'r cyfan i dun pobi.
Gwasgarwch y briwsion dros y cyfan a rhowch o dan y gril nes yn 'grisp'.

Tiramasu

Pwdin i doddi yn eich ceg gydag ychydig 'Baileys'

1. Cymysgwch 259 gm o mascapone gyda 142 ml o hufen chwipio nes yn feddal.
2. Ychwanegwch 1 neu 2 llond llwy fwrdd o siwgr eisin.
3. Torrwch 150 gm o gacen siocled yn giwbiau a gwnewch ½ cwpaned o goffi cryf a gadewch i oeri.
4. Rhennwch hanner y gacen siocled rhwng pedwar gwedyn, ychwanegwch dwy lond llwy de o'r coffi oer ac ½ llond llwy fwrdd o Baileys. Rhowch ychydig o'r mascapone dros y cyfan. Ychwanegwch haenen arall o'r holl gynhwysion, gwasgarwch ychydig goco dros y cyfan a mwynhewch.

O.N. Bydd manylion am lyfr coginio newydd Gareth yn ymddangos yn rhifyn nesaf o 'Clonc'.

MiS y PaPur NewYdd

Colofn Dylan Iorwerth

Tân gwyllt a gwleidyddiaeth y byd

Peth rhyfedd ydi arferion. Peth rhyfedd ydi traddodiad. Er gwaetha'r enw, mae'n gallu newid yn gyflym iawn.

Dyna ichi'r busnes Calan Gaeaf yma. Pan o'n i'n blentyn, doedd fawr ddim sôn am y peth. Noson Tân Gwyllt – neu Gei Ffôcs – oedd popeth.

Roedd noson ola' mis Hydref yn pasio heb i fawr neb sylwi oherwydd ein bod yn rhy brysur yn edrych ymlaen at Dachwedd 5.

Y peth rhyfedd am hynny ydi mai Calan Gaeaf oedd yr hen wyl Gymreig. Roedd honno wedi cael ei dathlu ers canrifoedd – miloedd o flynyddoedd fwy na thebyg – yn yr ardaloedd hyn.

Fel llawer o wyliau tebyg, roedd hi'n nodi rhyw newid mawr yn y flwyddyn ac amgylchiadau'r bobol. Nid cyd-ddigwyddiad ydi hi ein bod ni'n troi'r clociau tua'r un pryd.

Yn amlwg, doedd dim sôn am Guto Ffowc tan 1605. Dyna pryd y ceisiodd yr hen foi chwythu Senedd Lloegr i ebargofiant ac yn ôl. Ond, erbyn canol y ganrif ddiwetha', roedd Guto wedi hen ddisodli Gwyl yr Holl Saint.

Mae gen i gof o ddarlenn rhyw stori am Hwch neu Faedd dychrynlyd yn poeni pobol ar noson Calan Gaeaf, ond yn Cymru'r Plant yr oedd honno ac roedd yr Urdd yn ceisio'u gorau i adfywio'r traddodiadau.

Fel arall, roedd Guto Ffowc wedi cymryd lle'r hen wyl ac, mae'n amlwg mai gwleidyddiaeth oedd yn gyfrifol am hynny. Roedd cofio 1605 yn rhan o'r neges o blaid y Goron ac yn erbyn y Catholigion.

Fel arall, tân gwyllt amdani. Pan o'n i'n blentyn bach iawn, roedd hyd yn oed fy nhad yn gwneud rhyw osgo at ddathlu'r achlysur. Roedd angen dipyn o ddychymyg i droi hen focs carbodr yn Guto Ffowc, ond rhywsut roedd yn gweithio.

Pan o'n i ychydig yn hŷn, roedd Noson Tân Gwyllt yn para am wythnosau. Bron ar ôl gwyliau'r haf, roedd bechgyn y pentre'n dechrau casglu bocsys a darnau o goed – a hyd yn oed hen deiars drewllyd – er mwyn eu llosgi ar y noson fawr. A chael coelcerth well na neb arall.

Yn y dyddiau ola' wedyn roedd rhaid gwarchod y goelcerth, rhag ofn i hogiau o ran arall o'r pentre' ddod yno i'w llosgi cyn pryd. Doedd MI5 a'r KGB ddim ynddi wrth i ni geisio ffeindio beth oedd cynlluniau'r gangiau eraill.

Ers wythnosau hefyd, mi fyddai plant wedi bod yn prynu tân gwyllt a'u gollwng nhw ar hyd y lle. Roedd sŵn y bangers i'w clywed yn diasbedain ar hyd y fro nes gwneud i chi feddwl fod rhyfel wedi dechrau.

Weithiau, roedd pethau'n beryglus gyda jaci-jymers yn tasgu o gwmpas eich traed ac eroplâns yn gwibio o amgylch eich clustiau. Mae'n syndod fy mod i yma.

A dyna un rheswm pam fod Noson Tân Gwyllt bellach wedi troi'n ddigwyddiad ffurfiol, mewn ychydig o lefydd cyhoeddus. Oherwydd Iechyd a Diogelwch, dyna'r unig goelcerthi bellach, a dyna bron yr unig dân gwyllt.

Gan fod y cwmnïau masnachol a'r siopau bellach wedi colli un ffynhonnell ariannol, maen nhw wedi troi at un arall – Calan Gaeaf. Yn lle tân gwyllt, maen nhw'n gwerthu pompiwns a dillad gwrach a gwaed ffug.

Yr eironi ydi mai o'r Unol Daleithiau y mae'r pethau yna wedi dod i ardal Clonc a phob ardal wledig debyg. Trick or treat ydi hi a fersiwn Hollywoodaidd iawn o'r hen wyl baganaidd, Gymreig.

Crefydd ac ofergoel oedd yn arfer gyrru'r gwyliau. Arian sy'n gwneud hynny bellach. A'r Calan Gaeaf newydd yn arwydd o gryfder diwylliant America a'i ddylanwad arnon ni.

Mae'n rhyfedd meddwl bod plentyn bach sy'n mynd o gwmpas y lle ddiweddi mis Hydref, gyda chorryn yn ei law a masg gwrach ar ei wyneb, yn arwydd o'r hyn sy'n digwydd yng ngwleidyddiaeth y byd. Yn union fel yr oedden ni a'n coelcerth yn dal i berfformio hen stori wleidyddol fawr.

Be ddaw nesa' tybed? A welwn ni fersiwn mwy Celtaidd, Cymreig o'r hen wyl. Neu a fyddwn ni'n dechrau dathlu rhyw wyl o China neu India. Mae'r lanterni Chineidd wedi cyrraedd eisoes ...



Cegin Gareth
Goedwig
Llanbedr P.S.
SA48 7JP
01570 422 313

Blodau
Cacennau
Dathliadau
Partion

O geiniog i geiniog y tro'r arian yn bunt

Ar y 1af o Dachwedd fe lansiwyd y Junior ISA gan y llywodraeth. Mae'r cyfrif newydd yma ar gael i unigolion o dan ddeunaw gyda chyfraniadau o hyd at £3,600 yn gallu cael eu gwneud gan rieni neu gan fam-gu a thad-cu bob blwyddyn ariannol. Fel gyda'r Cyfrifon Cynilo Unigol (ISA) cyffredin, gall yr arian gael ei fuddsoddi ar y farchnad stoc, neu ei adael fel arian parod. Bydd unrhyw dyfiant neu incwm yn ddi-dreth (oni bai am y 10% treth ar ddifidendaau). Ni fydd modd i'r plentyn dderbyn yr arian nes ei ben-blwydd yn ddeunaw, felly mae'n amseru da iawn ar gyfer costau'r brifysgol.

Cafwyd tipyn o drafodaeth yn ddiweddar yn dilyn cyhoeddiad y llywodraeth bod gan brifysgolion yr hawl i ofyn am dâl o hyd at £9,000 y flwyddyn. Mae hyn yn peri tipyn o ofid i rieni ynglŷn â sut i dalu am addysg uwch i'w phlant. Er bod yna delerau ffafriol ar gyfer benthyciadau i fyfyrwyr, mae'r gofid yn parhau wrth iddynt raddio gyda dyled uchel ofnadwy a dim sicrwydd pendant o gael swydd. Mae'r sgil effeithiau yn parhau wrth i unigolion geisio prynu cartref am y tro cyntaf, gyda'r banciau yn gofyn am flaendal sylweddol. Adroddwyd yn diweddar fod y cyfartaledd oedran ar gyfer prynwr tŷ cyntaf yn awr yn 37 mlwydd oed.

Faint sydd ei angen?

Yn ôl prisiau heddiw, dyma amcan o gost cwrs tair blynedd mewn prifysgol gyffredin:

£9,000 costau addysgu bob blwyddyn

£10,000 costau byw bob blwyddyn

£19,000 cyfanswm y flwyddyn

Felly £57,000 am gwrs tair blynedd

Felly, i riant sydd â phlentyn yn cyrraedd oedran mynd i'r brifysgol mewn 15 mlynedd bydd angen buddsoddi swm o £27,418 nawr neu gynilo £215 y mis am y 15 mlynedd nesaf. Mae hynny yn seiliedig ar dyfiant o 5% am y cyfnod.

Ond, nid yw hyn yn ystyried chwyddiant, felly os bydd chwyddiant, er enghraifft, yn 2% yn ystod y cyfnod, bydd angen £75,715 mewn 15 mlynedd; mae hynny'n golygu buddsoddi swm o £35,850 nawr neu £284 y mis am y cyfnod.

Os byddwch yn buddsoddi £3,600 y flwyddyn drwy'r Junior ISA am ddeunaw mlynedd, a gan gymryd tyfiant o 5%, bydd swm o £106,340 erbyn diwedd y deunaw mlynedd.

Er efallai ei bod hi'n anodd ystyried rhoi cymaint â hyn mewn cyfrif o'r fath, bydd yn sicr yn osgoi sioc a phroblemau yn hwyrach. Does dim dwywaith, bydd unrhyw gyfraniad yn awr yn fanteisiol pan fydd y plentyn yn cyrraedd oed addysg uwch.

Llanfair Clydogau

Clwb Cerdded

Brynhawn Sul, Hydref 16eg, aeth grŵp o gerddwyr o'r pentref lan i Longwood lle dechreuwyd y daith ar hyd y llwybr i Lanbed. Roedd y tywydd yn sych ac yn eithaf dymunol. Ar ôl taith heriol, pleser mawr oedd gwybod fod te a lluniaueth yn ein disgwyl yng nghartref Margaret a Tom, Glanhelen, Heol y Gogledd. Diolch o galon iddynt am eu caredigrwydd a'u croeso arbennig. Mae pawb nawr yn edrych ymlaen at y daith nesaf.

Gwellhad Buan

Da iawn yw gwybod fod Eleanor Evans, Nantymedd ac Aerwen Griffiths, Pengarn, yn gwella'n dda, Eleanor ar ôl triniaeth ar ei choes

ac Aerwen ar ôl llawdriniaeth i gael clun newydd.

Clwb Cant

Enillwyr mis Hydref oedd: £20 Ian Evans, Esgairman; £10 Deborah Jones, Llanfair Fach; John Plevy, Riverside Barn; a Rebecca Millar, Cysgod y Coed; £5 Sarah Thomas; Deina Hockenhull a Wil Hockenhull, Ty Pella, Tregaron, Arwyn Evans, Llanfair Fawr; Megan Davies, Caerdydd a Gwen a Colin Adams, Brynheulog.

Beth sydd nesaf?

Tachwedd 19eg - Noson gwin a chaws; Rhagfyr 3ydd - Y Farchnad Fisol a Ffair Nadolig; Rhagfyr 19eg a 21ain - Canu carolau o gylch y pentref.

Barod ar gyfer y Nadolig?

Bydd cyfle i chi gynnwys eich cyfarchion Nadolig yn CLONC eleni eto. Bydd cynrychiolwyr y papur yn mynd o gwmpas siopau a busnesau lleol yn ystod mis Tachwedd yn eu gwahodd i gynnwys hysbysebion yn Rhifyn Rhagfyr.

£10 am floc bach, £40 am chwarter tudalen, £60 am hanner tudalen

Cysylltwch â'r trysorydd am fwy o fanylion: 01570 480015 neu ysgrifennydd@clonc.co.uk

Diolch am eich cefnogaeth.

Llanwnnen

Anrhydedd



Yng Nghyrrddau Hydref yr Undodiaid a gynhaliwyd yng Nghapel y Cwm ar Hydref 2il trosglwyddwyd y llywyddiaeth oddi wrth Haydn Richards, Lowtre i Elaine Davies, Pen-y-nant. Diolch i Haydn am ei waith yn ystod ei gyfnod o ddwy flynedd a dymunir yn dda i Elaine yn ystod ei chyfnod hithau o ddwy flynedd.

Sefydliad y Merched

Cynhaliwyd Cyfarfod Blynyddol y gangen nos Lun, Hydref 3ydd gyda Mrs Eunice Thomas o Gei Newydd yn arwain y trefniadau. Dymuniad y Llywydd Mrs Gwen Davies oedd rhoi'r gorau i'w swydd yn llywydd wedi blynyddoedd lawer o arwain y W I yn Llanwnnen. Mrs Avril Jones fydd y Llywydd am y flwyddyn nesaf. Cytunodd yr ysgrifenyddes Mrs Ann Hughes, y trysorydd Mrs Alice Davies, ysgrifenyddion y rhaglen Mrs Mary Davies a Mrs Ceinwen Roach gadw at eu swyddi am gyfnod arall.

Enillydd cystadleuaeth y mis am Blât Wal oedd Mrs Avril Jones.

Bydd y cyfarfod nesaf yng Ngwesty'r Grannell ar nos Lun, Tachwedd 7fed gyda Miss Einir Ryder yn sôn am ei thaith i Serbia. Braf byddai croesawu aelodau newydd i ymuno â ni.

Ysgol Llanwnnen

Bu Richard Thomas o Cadwch Gymru'n Daelus yn trafod gyda'r plant am bwysigrwydd o gadw'r ysgol a'r ardal yn lan o sbwriel. Yna aeth pawb gyda'r swyddog o gwmpas yr ysgol a'r pentref gydag offer pwrpasol i gasglu'r sbwriel.

Yn ystod y gwanwyn a'r haf bu'r plant yn tyfu llysiau, ffrwythau a blodau ar gae'r ysgol, erbyn hyn mae'r cynnyrch wedi eu cynaeafu. Gwerthwyd ychydig ohono i rieni, defnyddiwyd peth i goginio yn yr ysgol ac aeth y plant adref a'r gweddill.

Llangybi

Hamdden

Cyfarfu'r gymdeithas ar Hydref 7fed yn Ysgol Y Dderi. Etholwyd Janet Farrow yn llywydd a Dilys Godfrey yn is-lywydd; Sally Daves yn drysorydd; Llinos Jones yn ysgrifennydd cymdeithasol; Mair Spate yn ysgrifennydd cyffredinol a Joyce Harris yn drefnydd y raffl. Rhoddwyd y te a'r bisgedi gan Maggie Morgans a Mair Spate. Enillwyd y raffl gan Liz Holgate, Ann Bennet, Mair Spate, Maisie Morgan, Maureen Williams a Barry Williams. Fe fydd y cyfarfod nesaf ar Dachwedd 4ydd pan fydd Angharad Manweh yn arddangos ei chasgliad o Saris. Croeso cynnes i aelodau newydd.

Merched y Wawr Y Dderi

Cyfarfu'r gangen ar Hydref 19eg dan lywyddiaeth Lettie Vaughan. Y wraig wadd oedd Iona Phillips a'i chydweithwraig o Ysbyty Bronglais yn sôn wrthym am glefyd y siwgr. Cafwyd noson ddiddorol yn llawn gwybodaeth ddefnyddiol. Diolchwyd i'r ddwy am noson addysgiadol gan Gwyneth Jones. Rhoddwyd y raffl gan Gwyneth Evans ac Irene Lewis ac fe'u henillwyd gan Eryl Evans ac Irene Lewis. I ddiweddu'r cyfarfod, cafwyd te a bisgedi wedi eu rhoddi gan Eleanor Evans ac Iris Quan. Bydd y cyfarfod nesaf yn yr Hedyn Mwstard am 6:30y.h. ar nos Fawrth, Tachwedd 18fed ac yna yn ddiweddarach yr un wythnos cynhelir y Cwis Hwyl.

Llanllwni



Priodas Dda

Llongyfarchiadau i Wenfys Evans, Ninant Rees, a Marc Anstee o Ferthyr ar eu priodas yng Nghaerfyrddin yn ddiweddar. Cafwyd lluniau yng Ngerddi Norwood a'r ginio yng Ngwesty'r Grannell, Llanwnnen. Maent wedi ymgartrefu yn Ninant Rees.

Eglwys Sant Luc, Llanllwi

Dathlwyd ein Diolchgarwch eleni ar y 6ed o Hydref. Yn ôl yr arfer, gwasanaeth plant Ysgol Llanllwni oedd yn y prynhawn a gwnaethant eu gwaith yn safonol fel arfer. Ein ficer, y Parchedig Suzie Bale wnaeth yr anerchiad. Y pregethwr gwadd yn y cyfarfod 7 o'r gloch oedd y Parchedig Janet Robbins, Llanbed. Cafwyd ganddi neges bwrpasol ac fe ddefnyddiodd y ddwy iaith yn naturiol iawn. Diolch i'r ddwy wraig am eu hymroddiad.

Nos Wener Hydref 7fed cynhaliwyd y Swper Cynhaeaf blynyddol ac fe fwynhaodd dros 60 o bobl a phlant bryd o fwyd blasus iawn a ddarparwyd gan yr aelodau. Eleni, aelodau iau Clwb Ffermwyr Ifanc Llanllwni oedd â gofal am yr adloniant a mwynhaodd y gynulleidfa eitemau o ganu a darllen graenus iawn. Diolch iddynt am roi o'u hamser ac i Marion Howells am gyfeilio. Arweinydd y noson oedd Eric Davies a'r Ficer Suzie a dalodd y diolchiadau. Trefnwyd y swper gan Janet Howells. Diolch i'r tri ohonynt. Braf iawn yw gweld pob oedran yn cydweithio a mwynhau gyda'i gilydd.

Llongyfarchiadau i Mike a Rena Harrington ac i Dilwyn ac Anne Gibby ar ddathlu eu Priodas Ruddem a dymuniadau gorau i'r dyfodol.

Cynhaliwyd cyfarfod mis Hydref ar ddydd Mawrth yr 11eg o'r mis yn y Neuadd Gymunedol. Y Parchedig John Emrys Jones a fu'n annerch y mis yma ac fe'n cadwdd i wrando a chwerthin yn ei ffordd ddeheuig ei hun. Aeth yn ôl dros y llwybr a'i arweiniodd i fod yn Ficer Plwyf ac fe soniodd am y cymeriadau diddorol a gyfarfu ar y ffordd. Diolchwyd iddo gan y Ficer.



Margaret Davies, cadeirydd cyntaf Ysgol Feithrin Llanllwni yn torri cacen i ddathlu fod yr Ysgol Feithrin yn ugain oed yn ystod Sioe Ffasiynau Shwldimwl yn Nhafarn Talardd. Meinir Evans oedd wrth y llyw a diolchodd i bawb am eu cefnogaeth dros y blynyddoedd.

Yn y llun mae - o'r chwith - Eirlys Davies, Trysorydd; Janet Jones, Arweinydd; Margaret Davies, Cadeirydd Cyntaf; Helen Davies, Cynorthwydd; Meinir Evans, Cadeirydd a Llinos Harries, Ysgrifennydd

Fe geir rhagor o ddathlu y mis yma. Ar yr 20fed o'r mis bydd Lewis a Betty, Beili Bach (Gwndwn gynt) yn cyrraedd carreg filltir fawr ac yn dathlu eu Priodas Ddiemwnt. Go dda yn wir. Drannoeth, ar yr 21ain bydd Betty yn cyrraedd ei phedwar ugain oed. Llongyfarchiadau diffuant a phen-blwydd hapus.

Priodas Ddiemwnt

Llongyfarchiadau i Lewis a Betty, Beili Bach ar ddathlu eu Priodas Ddiemwnt yn ystod mis Hydref. Iechyd da i chwi eich dau am flynyddoedd eto.

80 oed

Dathlodd Betty, Beili Bach ben-blwydd arbennig yn 80 oed trannoeth i'w Phriodas Ddiemwnt. Gobeithio i chwi fwynhau'r dathlu.

Ysgol Llanllwni

Aeth tîm o'r Adran Iau i gystadlu yng nghystadleuaeth pêl-droed yr Urdd, Cylch Llanbed lle daethant yn drydydd. Aelodau'r tîm oedd Daniel, Max, Rebecca, Siriol, Lewis, Steffan a Ceris.

Cymerodd y plant i gyd ran yng ngwasanaeth Cwrdd Diolchgarwch yr Eglwys brynhawn Iau, Hydref 6ed. Canodd y babanod ddwy gân. Canodd yr Adran Iau ddwy gân hefyd. Darllenodd plant blwyddyn 6 ddarnau yn Gymraeg a Saesneg. Cafwyd anerchiad pwrpasol gan y Ficer Suzie Bale. Casglwyd tuag at Send a Cow.

Ymunodd dosbarth y Cyfnod Sylfaen yn hwyl Sbri-di-ri gyda Gwenda Owen yn Ysgol Gyfun Llanbed. Cawsant hwyl yn canu a chwrdd â Sali Mali a Mr Urdd.

Rydym wedi dewis yr aelodau a fydd ar y pwyllgor Cyngor Ysgol eleni, sef Bl.6 – Jerusha, Bl.5

– Ceris, Bl.4 – Ifan, Bl.3 – Seren; Bl.2 – Thomas.

Rydym hefyd wedi cwrdd fel ysgol gyfan i gynllunio gweithgareddau gogyfer â'r Cynllun Eco - Ysgol sy'n cynnwys cadw'n heini, helpu elusen, diogelwch, arbed ynni a diogelu'r amgylchedd.

Mwynhaodd Bl.6 ddiwrnod blasu yn Ysgol Dyffryn Teifi gan gael blas ar wersi Technoleg, Gwyddoniaeth ac Ymarfer Corff.

Dyma enillwyr Clwb Cefnogwyr yr Ysgol am fis Hydref:

£10.00 – 161 – Louise Thomas, Gwel-Y-Cwm, Llanfihangel-ar-arth.

£5.00 – 2 – Sophie Jones, Nanthendre (Upper Farm House), Llanllwni.

£2.50 – 68 – Carys Evans, Maes Yr Onnen, Llanllwni.

£2.50 – 119 – Iris Evans, Cefncoed Isaf, Llanllwni.

£2.50 – 67- Ruth Evans, Maes Yr Onnen, Llanllwni.

Ffair Nadolig Cylch Meithrin Llanllwni

Cynhelir Ffair Nadolig Cylch Meithrin Llanllwni ar ddydd Sadwrn y 12fed o Dachwedd yn Festri Capel Nonni o 1 – 4pm. Bydd yna nifer o gwmnïau cynnyrch cartref a chreffft lleol yn gwerthu nwyddau o safon. Llywyddion y dydd yw Alan a Valerie Jones, Maes y Llyn, Llanllwni. Bydd yna sesiwn grefft a bydd Santa yn galw heibio ag anrhegion i'r plant. Croeso i chi alw draw a chael cyfle i brynu anrheg Dolig arbennig.

Bingo Nadolig

Mae Cylch Meithrin Llanllwni yn trefnu Bingo Nadolig ar gyfer nos Lun y 12fed o Ragfyr yn Nhafarn y Belle, Llanllwni – croeso cynnes i

bawb.

Cylch Ti a Fi

Mae yna groeso i famau a thadau neu fam-gu's a thad-cu's alw draw gyda'ch plantos bach i'r Cylch Ti a Fi yn Ysgol Llanllwni bob bore Iau o 9 tan 11. Mae'r plant yn cael hwyl wrth chwarae tra bod yr oedolion yn cael clonc a dishd.

Dosbarth Ymarfer Corff

Mae Js Workout yn cynnal dosbarth ymarfer corff bob nos Wener (heb law'r 4ydd o Dachwedd) yn Neuadd Gymunedol Eglwys Llanllwni am 8pm; y gost yw £3.50.

Diolch

Dymuna Sara Jones, Sarn Helen ddiolch i bawb am y cardiau, rhoddion a'r dymuniadau da ar achlysur ei phen-blwydd yn 90 oed yn ddiweddar.

Dymuna Lewis a Betty, Beili Bach estyn eu diolch a'u gwerthfawrogiad am y llu o gyfarchion, cardiau ac anrhegion a dderbyniasont ar achlysur eu Priodas Ddiemwnt ac ar ben-blwydd Betty yn 80 oed. Diolch o waelod calon am yr holl garedigrwydd a ddangoswyd iddynt.

Os hoffech
gynorthwyo'r
gwirfoddolwyr gyda'r
gwaith o gynhyrchu'r
papur hwn, croeso i
chi gysylltu ag un o'r
bwrdd busnes.

O'r Cynghorau Bro



Cyngor Bro Pencarreg

Cadeirydd: Dorian Davies; Clerc: Eric Williams; Cynghorydd Sir: Fiona Hughes.

Cyfarfu'r Cyngor ar 3 Hydref 2011. Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau i'r cyfarfod.

Lleine: Byddai'r Clerc yn ymholi am yr oedi cyn lledaenu'r pafin. Safle Bicnic: Mae'r ddwy sedd wedi'u difrodi a'r Heddlu'n ymchwilio. Llwybrau Cyhoeddus: Mae dwy o'r sticlau ger Ddeunant wedi eu trwsio. Torrwyd peth o'r drain. Mae angen clirio'r pafin ger Ysgol Carreg Hirfaen. Yr Hen Fedyddfan: Mae rhai o'r cynghorwyr wedi archwilio'r safle yn afon Eiddig ger Pont Ddeunant i weld a oes modd gwneud rhywbeth i ddiogelu hen arferiad. Cae chwarae ger Efail Fach: Bydd angen symud safle'r Caban Bws. Mae'r Clwb Rygbi yn gyfrifol am hyn. Cael Caban newydd fyddai orau fel yr un sydd yn mhentref Pencarreg.

Penderfynwyd gofyn i'r swyddog newydd sy'n gyfrifol am y palmantau yn y Sir, Ms Nicola J Smith, gwrdd â'r Cyngor ar sgwâr Cwmann . Tafarn y Ram: Cymeradwywyd cais newydd am ailosod ffenestri. Bydd y rhain yn bren meddal gyda chelloedd o bren caled. Clonc: Cyfrannwyd at apêl y papur bro.

Dyddiad y cyfarfod nesaf: 6 Tachwedd 2011.

Cyngor Tref Llambod

Maer: Hag Harris; Clerc: Eleri Thomas; Cynghorydd Tref a Sir: Robert (Hag) Harris; Cynghorydd Sir: Ivor Williams.

Cyfarfu'r Cyngor ar 29 Medi 2011 yn Neuadd yr Eglwys, Llanbedr Pont Steffan. Croesawyd yr aelodau i gyfarfod Cyngor y Dref gan y Maer. Offirmwyd gweddi gan John Davies. Estynnwyd cydymdeimlad i'r maer ar ei golled diweddar.

Cafwyd cyflwyniad gan Amanda Mugford o Asiantaeth yr Amgylchedd ar beryglon llifogydd yn ardal Llambod. Cafwyd cyflwyniad gan Cathryn Morgan, Cydlynnydd RAY Ceredigion, sydd wedi bod yn cwrdd ar Faesyderi yn fisol ers mis Ebrill. Y nod oedd denu plant i fwyhau gweithgareddau awyr agored a hybu sgiliau cymdeithasol. Nodwyd mai'r Cyngor Sir fydd yn gyfrifol am y Pwll Nofio o'r 19eg Medi. Mae trefniadau ar y gweill i adfer cadwyn y maer. Penderfynwyd gwahodd cynrychiolydd o'r Sir i sôn am gynllun Balchder Pentrefi sydd dan adain Cynllun Adfywio Ceredigion ac a weinyddir gan y Cyngor Sir. Bydd 16 myfyriwr o'r Brifysgol yn dod i gyfarfod nesaf y Cyngor yn rhan o'u cwrs Newyddiaduraeth. Derbyniwyd llythyr gan Mr Noel Davies yn nodi ei fod am roi'r gorau i'w swydd ar Sul y Cofio oherwydd ymrwymadau teuluol. Nodwyd bod Menter Llambod yn disgwyl derbyn les Neuadd Fictoria yn y dyfodol agos. Y bwriad yw datblygu'r neuadd at ddefnydd y gymuned. Penderfynwyd cefnogi Urdd Gobaith Cymru. Nodwyd bod rhai goleuadau stryd yn ddiffygiol. Roedd y Cyngor yn anhapus na fydd y Carmarthen Journal yn adrodd am ddigwyddiadau perthnasol i dref Llambod o hyn ymlaen.

Gwmsychpant

Cyrrddau'r Hydref

Cynhaliwyd Cyrrddau'r Hydref yng Nghapel y Cwm ar ddydd Sul, Hydref 2il. Er mai gwan oedd y gynulleidfa cafodd pawb fendith fawr o fod yno. Cymerwyd y rhannau arweiniol gan y Parch. Wyn Thomas a'r Parch. Cen Llwyd ac fe fu aelodau'r Ysgol Sul yn canu emyn. Hefyd yn ystod y gwasanaeth trosglwyddwyd siec am £1949.40 i'r Gymdeithas Strôc [arian a gasglwyd ar y Daith Gerdded flynyddol a gynhaliwyd nôl ym mis Gorffennaf]. I orffen, cafwyd anerchiad a thrafodaeth yng nghwmni Ysgrifennydd y Gyfadran Gymreig, sef Carwyn Tywyn.

Gwasanaethwyd wrth yr organ gan Einir Ryder, Tyngrug-ganol. Trodd pawb i fewn i'r festri am de Cymreig wedi ei baratoi gan wragedd y capel.

Cwrdd Diolchgarwch

Gwelwyd Cael y Cwm yn

gyfforddus lawn gogyfer â'r Cwrdd Diolchgarwch blynyddol. Llywyddwyd gan y Parch. Wyn Thomas ac ef a groesawodd y Parch. Aled Jones o Gapel Carmel Prengwyn a Saron, Llandysul. Roedd trawsdoriad oedran y gynulleidfa yn amrywio o 4oed i'r 80au ac roedd hynny wedi syfrdanu'r gweinidog gwadd yn fawr iawn. Nid yw hynny i'w weld lawer yn ein capeli a'n heglwysy ni heddiw. Cafwyd ganddo neges dymhorol iawn ac fe wasanaethwyd ar yr organ gan Einir Ryder. Diolch i bawb am gefnogi'n flynyddol.

Noson Bingo

Cynhaliwyd Noson Bingo yn y festri ar nos Wener, Hydref 28ain. Hyfryd oedd gweld cynulleidfa niferus wedi dod ynghyd. Y Capel a'r Ysgol Sul oedd yn rhannu elw'r noson. Tynnwyd y raffl blynyddol ar y noson hefyd.

Pentrebach

100 mlynedd yn Nolaugwyrddion-isaf

Nid yn aml y medrir dweud y dyddiau yma fod yr un teulu wedi byw yn yr un cartref am ganrif ond dyna yw hanes diddorol teulu Dai a Gwyneth yn Nolaugwyrddion-isaf, Pentrebach. I ddathlu'r achlysur lle bu'r teulu yn byw ers 1912, fe wnaeth Dai wahodd yr holl gymuned ym Mhentrebach i'w ffarm ar nos Fercher Hydref 5 ac mi gafwyd parti a noson i'w chofio.

Ymgasglodd tua chwedeg pump o'r trigolion yn yr hen feudy wrth ochr y parlwr godro a'r hyn a synnodd llawer oedd gymaint o 'fugeiliaid newydd' oedd wedi symud i'r ardal ers swper y mileniwm yng ngwesty'r

Grannell yn y flwyddyn 2000. Roedd yn gyfle arbennig i gyfarfod â ffrindiau newydd yn y gymuned glos ym Mhentrebach a manteisiwyd ar y cyfle.

Roedd yna wledd o fwyd wedi ei baratoi ar ein cyfer yn cynnwys cig oen ac eidion, ffowlyn a dau samwn anferth a oedd wedi eu dal yn y Teifi ar dir Dolaugwyrddion. Roedd pawb wedi eu digoni gan y dewis amrywiol a gan y croeso a gafwyd gan y cyfeillion a oedd yn gweini wrth y byrddau. Yn anffodus, mi fethodd Gwyneth â bod yn bresennol gan iddi orfod mynd i'r ysbyty ac mi ddanfonwyd ein dymuniadau da iddi am wellhad buan.

Wrth gyfarch yr holl wahoddedigion, soniodd Dai am hanes y teulu o ddyddiau ei dad-cu a'i fam-gu at heddiw. Roedd yna luniau wedi eu casglu o'r teulu ac yn amlwg mae'r etifeddiaeth deuluol yn golygu llawer i Dai a Gwyneth. Does neb yn gwybod hanes Pentrebach yn well na Dai ac mi gafwyd ganddo grynoded hynod ddiddorol o'r newidiadau mawr sydd wedi cymryd lle dros y blynyddoedd yn y fro o Bontfaen i Lanwnnen. Mi ddylid rhoi yr hanes ar bapur gan fod y ffeithiau o bwys ac o ddiddordeb i holl drigolion yr ardal ac yn record bwysig i'r dyfodol.



Twynog Davies gafodd y fraint o ddiolch i Dai ar ran y gymuned am y croeso ac i'r rhai a fu'n cynorthwyo. Cyfeiriodd Twynog at Dai fel un o'r cymwynaswyr a'r cymydog gorau y gall unrhyw un ei gael. Soniodd am ei waith rai blynyddoedd yn ôl yn helpu i baratoi

hen offer fferm er mwyn eu danfon i'r trydydd byd. Gŵr â chalon fawr yw Dai Dole sydd â chonsym am eraill ac yn barod i helpu pawb.

Yn rhyfedd iawn ar ddiwrnod y dathlu, fe ddaeth Dai yn dad-cu ac mi ddanfonwyd ein cyfarchion at Delyth, ei phriod a'r ferch fach yng Nghefneithin. Dymunwn yn dda i'r teulu gan obeithio y byddant yn dal i ffermio ffarm y teulu yn Nolaugwyrddion am flynyddoedd lawer eto. Yn ystod y noson, derbyniwyd rhoddion at ddwy elusen – Nyrsys Marie Curie a Ffagl Gobaith, ac mi gasglwyd y swm anrhydeddus o dros £400.

Dymuna Dai a Gwyneth ddiolch i'r gymuned am eu cyfeillgarwch a'u cefnogaeth dros y blynyddoedd ac am eu presenoldeb ar y noson arbennig yma yn hanes y teulu.


Diolch

Carai Dai, Dolaugwyrddion ddiolch i bawb a fu ynghlwm â'r paratodau ac i'r holl gymdogion a ymwelodd ag ef i ddathlu canmlwyddiant ei deulu yn ffermio yno. Casglwyd dros £400 at Ffagl Gobaith a Nyrsys Macmillan.



Enwau Lleoedd Lleol

gan David Thorne



Ffostrasol Rasol Talardd Slang

Pentre Pensarn oedd yr hen enw ar Ffostrasol ym mhlwyf Troed-yr-aur; Ffostrasol oedd yr enw yn 1811. Gallai'r enw hwnnw gynnwys yr elfennau 'ffos' + 'tir' + 'asol'. Mae 'asol, (y)r asol' yn dalfyriad llafar o 'atsofl' sef tir â'r adwyd heb ei droi am flwyddyn neu ragor. Dyma'r elfen a adlewyrchir yn enw'r annedd Rasol Cottage yn Llyfr Degwm Llanllwni ac mewn enwau caeau megis Cae rasol, Y rasol, Rasol y banc yn y plwyf.

Ceir yr un elfen mewn enwau caeau yn Llanfihangel-ar-arth. Yn Llanwenog mae Cae Rasol Goch ac yn Llanwnnen ceir Cae Rasol Felen; ceir Rasol yn Cellan a Pant Rasol yn Llanarth ac yn Llanpumsaint. Mae Parc Rasol yn Llanegwad.

Er inni gynnig un dehongliad posibl ar Ffostrasol, rhaid ystyried, yn ogystal, mai 'trosol' sef bar haearn neu bren yw'r ail elfen a Ffos-drossol yw'r ffurf a geir ar yr enw yn 1826. Byddai trosol yn cyfeirio at yr erfyn yr oedd ei angen i godi ceirt o'r tir corsog neu o'r ffos sydd bellach yn wely i nant Cerdin Fach.

Talardd

Sonnir am Talardd yn Llanllwni mewn dogfen gyfreithiol yn 1626. Roedd hynny flwyddyn neu ddwy cyn geni, John Jones, tafarnwr hynaws presennol Y Talardd. Mae dwy elfen i'r enw sef tâl sy'n golygu 'o flaen, pen' ac ardd sy'n golygu 'bryn, tir uchel'. Ystyr Talardd felly yw 'o flaen tir uchel'. Mae'r ddwy elfen yn gyffredin mewn enwau lleoedd. Tâl- yn Talgarreg, Tal-sarn, Tal-y-bont, Talyllychau, Tal-y-llyn. Ardd fel yn Talerddig.

Slang

Mae Slang yn digwydd yn elfen mewn sawl enw lleol: ceir Slang ym Mhencarreg ac yn Llandeilo; ceir Cae Slang yn Llanfihangel-ar-arth; Slang Llywelyn yn Llanwenog; Slang Bengam Bellaf yng Nghellan; Slang Blaen Cwm yn Llandysul; Slang Tŷ-Poeth yn Aber-arth; Slang Crychddu yn Llangoedmor. Darn cul o dir yw 'slang'.

Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru

Dydd Sadwrn, 1 Hydref yn y Drwm yn y Llyfrgell Genedlaethol yn Aberystwyth, cynhaliwyd cynhadledd undydd lwyddiannus ar Enwau Lleoedd wedi ei threfnu ar y cyd gan Gymdeithas Enwau Lleoedd Cymru (cymdeithas newydd a ysgogwyd yn wreiddiol gan Gymdeithas Edward Lhuyd) a'r Ganolfan Uwchfrydiau Cymreig a Cheltaidd.

Agorwyd y gynhadledd gan Alun Fred Jones a chroesawyd dros 70 o gynadleddwyr o bob rhan o Gymru, Cafwyd cyfraniadau diddorol gan Hywel Wyn Owen, Prys Morgan, David Thorne, David Parsons, Angharad Fychan, Robert Davies, a Rhian Parry. Gareth Bevan a Dei Tomos oedd y Cadeiryddion. Wedyn yn ystod y prynhawn bu cyfle i weld mapiau pwrpasol sydd wedi eu diogelu yn y Llyfrgell yng ngofal Robert Davies.

Os dymunwch ymuno â'r gymdeithas cysylltwch ag Angharad Fychan yn y Ganolfan Uwchfrydiau Cymreig a Cheltaidd, Safle'r Llyfrgell Genedlaethol, Aberystwyth, neu ewch i www.cymdeithasenwaulleoeddcymru.org

Y tro nesaf byddwn yn trafod yr enw Llanfair Clydogau.

Colofn y C.Ff.I.



Swyddogion Newydd i sir y Cardis!

Etholwyd swyddogion newydd i'r sir ym Mhwyllgor Blynyddol y Sir ar yr 21ain o Fedi yn Neuadd Ciliau Aeron. Diolchwyd i swyddogion 2010/11 am eu cyfraniad tuag at weithgareddau'r mudiad. Dyma'r swyddogion newydd: Cadeirydd: Miss Manon Richards, Llanwenog; Is-gadeirydd: Mr Emyr Lloyd, Tregaron; Llywydd: Mr Eifion Morgans, Mydroilyn; Is-lywydd: Mr Dan Davies, Dihewyd

Chwaraeon Dan Do

Yn ôl yr arfer, cynhaliwyd noson lwyddiannus iawn o Chwaraeon Dan Do ar y 23ain o Fedi yng Nghanolfan Llanddewi Brefi. Dyma'r canlyniadau:

Snwcer: Caerwedros; Pwl: Talybont; Drafft: Llangwryfon; Dominos: Mydroilyn; Tennis Bwrdd (Merched): Llanddewi Brefi; Tennis Bwrdd (Bechgyn): Bro'r Dderi; Tennis Bwrdd (Dwbl): Troedyrur; Dartiau (Merched): Pontsian; Dartiau (Bechgyn): Trisant; Dartiau (Dwbl): Felinfach; Tipit: Llanddewi Brefi. Canlyniad terfynol: 3ydd – Pontsian; 2il – Llanwenog ac yn gyntaf, Llanddewi Brefi.

CCB CFfI Cymru

Aeth criw mawr o aelodau'r sir i Gaerdydd ar y 30ain o Fedi ar gyfer penwythnos cyfarfod blynyddol

CFfI Cymru. Daeth rôl Enfys

Evans, Llanddeiniol, fel Cadeirydd CFfI Cymru i ben dros y penwythnos, ac etholwyd Dylan Jones, Sir Gâr yn gadeirydd i'r mudiad, a Gwenno Griffiths, Eryri yn is-gadeirydd. Etholwyd Elin Jones, AC yn un o is-lywyddion y mudiad yn genedlaethol.

Sioe Dathlu 70 mlynedd

Mae'r dathlu yn parhau! Perfformiwyd sioe ddathlu am dair noson yn Theatr Felinfach ar y 13, 14 a 15fed o Hydref. Braff oedd gweld cynrychiolwyr o bob clwb ar y llwyfan. Diolch i bawb a fu yn gymorth i'r sioe a llongyfarchiadau mawr i'r tîm sgriptio a chynhyrchu, yn ogystal â'r cast, am baratoi tipyn o sioe.

Mi fydd y dathlu yn parhau ar y 23ain o Dachwedd yn y Llyfrgell Genedlaethol pan fydd Llyfr Dathlu CFfI Ceredigion yn cael ei lansio. Mae croeso cynnes i bawb ymuno â ni yn y dathlu, ond gofynnwn i chi ffonio'r swyddfa ar 01545 571333 os ydych yn bwriadu dod er mwyn cael trefnu lluniaeth.

Cofiwch hefyd am Gymanfa'r Dathlu ar y 4ydd o Ragfyr yng Nghapel y Tabernacl, Aberaeron. Bydd y rhaglenni ar werth yn Eisteddfod y Sir ar y 10fed a'r 12fed o Dachwedd ym Mhafiliwn Pontrhydfendigaid.

YSWIRIANT FUW

Yswiriant Fferm, Busnesau, Ceir a Thai



Arbenigedd lleol
Polisiâu at bopeth
Prisiau cystadleuol

Dewch i drafod eich anghenion gyda

Alan Jacob 07968 371823 / 01570 481361
neu

Gwion James 07980 608337 / 01570 480623

Yn swyddfa Yswiriant FUW,
Sgwar y Mart, Llanbydder

Mae Undeb Amaethwyr Cymru wedi ei sefydlu'n rhan o'r
Awdurdod y Gwasanaethau Arianol, yng ngyd-destun datblygu yswiriant
a dan ddaethol Cymru, 2008/09

DAI MECANIC

Arbenigwr mewn:

- Gwasanaethu a thrwsio beiciau ATV
- Cynnal a chadw cyfarpar pŵer

DAI JONES
07791 840 500

Mwnci ffwnci



Brodweithio
a Phrintio Dillad.
Darparu
Dillad Gwaith
a Hamdden.

Sioned Green
a Mared Jones
Nantgwyn,
Heol Llanfair
Llambod

☎01570 423135
☎07811917799 /
07968821035
✉ mwncciffwnci@hotmail.com

CEGIN GWENOG

Abernant, Llanwenog

Gwasanaeth arlwyio cyflawn ar
gyfer pob achlysur

- Bwyd Priodas
- Bwffe
- Te Angladd
- Digwyddiadau Maes



Bwydlenni unigol i ateb eich gofynion
chi - boed yn fawr neu'n fach

Mair Hatcher
01570 481230 / 07967 559683

Colofn Newydd - Dad-cu neu Fam-gu

Daeth syniad newydd i law Papur Bro Clonc am golofn newydd, ond gofynnir i ddarllenwyr y papur gyfrannu'r cynnwys.

Dyma golofn a fyddai o ddiddordeb mawr i ddarllenwyr y papur, sef hanes a phortreadau'r genhedlaeth hŷn yn yr ardal, gan gynnwys y bobl hynny a fu'n gymaint o ddylanwad yn eu ffyrdd eu hunain ond sydd bellach o bosib wedi ein gadael ni. Oes diddordeb gyda chi? Beth am ysgrifennu am fam-gu annwyl a'i gwaith diflino ar y fferm? Oedd hi'n berson caredig a oedd yn eich sbwylio chi ar benwythnosau? Oedd hi'n coginio i'r teulu neu'n asgwrn cefn yr achos yn y capel neu'r eglwys? Beth am bortread arwrol o dad-cu a'i ymdrechion adeg y rhyfel? Oedd e'n ddyn busnes o flaen ei amser? Oedd e'n ddisgyblwr llym ac yn cadw at safonau? Neu'n berson cyffredin, nodweddiadol o bobl yr ardal, na chafodd sylw haeddiannol gydol ei oes?

Dyma'ch cyfle chi i roi pen ar bapur a rhannu'r atgofion melys rhwng cloriau Clonc cyn i'r cyfan ddiplannu gyda threigl amser. Mae gan y rhan fwyaf o bobl atgofion am y genhedlaeth a oedd mor annwyl iddynt. Mae'n ddigon posibl eu bod yn dal yn fyw ac yn deilwng o fod yn y golofn newydd hon yn Clonc. Ewch ati i ysgrifennu portread rhyw 600 gair os gwelwch yn dda a'i ddanfod gyda llun at y golygydd. Gallwch ddanfod ar e-bost os y dymunwch - golygydd@clonc.co.uk

Cwrtnewydd

Ysgol Cwrtnewydd



Cystadlodd bechgyn hynaf yr ysgol yn nhwrmament pêl droed dan do yr Urdd yn y Ganolfan Hamdden yn Llanbed. Cafodd y bechgyn gryn lwyddiant ac ennill y gystadleuaeth. Bydd y tîm yn cynrychioli cylch Llanbed yn y rownd nesaf ddechrau mis Rhagfyr.

Wedi setlo nôl i fywyd yr ysgol, aildechreuwyd ar ddau glwb ar ôl ysgol, sef y Clwb Cadw'n Heini a Chlwb yr Urdd. Yn rhan o'r Clwb Cadw'n Heini, cafwyd sesiwn o sgiliau rygbi dan arweiniad Bryn Evans o Gampau'r Ddraig i gyd fynd â gweithgareddau Cwpan y Byd. Mwynhaodd y plant y sesiwn yn fawr iawn.

I aildechrau Clwb yr Urdd, cafwyd noson o hwyl yn chwarae gêmiau amrywiol. Ar yr ail noson, rhaid oedd i bawb roi eu pennau i lawr ac edrych ar y rhifau ar eu cardiau bingo. Cafwyd llawer o hwyl yn gweiddi 'llinell' a 'tŷ'! Hefyd yn ystod Clwb yr Urdd mae'r plant wedi bod y gwneud salad ffrwythau gan ei bod yn amser cynhaeaf a diolchgarwch. Aeth pob un ohonynt adref â dysgl o ffrwythau i swper.

Bu plant blwyddyn 3, 4, 5 a 6 yn ffodus iawn i fynd i weld sioe 'Al ac Ant' yn Theatr Felinfach. Cafodd y plant brynhawn llawn hwyl a sbri yn eu cwmni.

Bu plant blwyddyn 5 a 6 yn cymryd rhan mewn sesiynau gan SUDDS. Roedd y plant wedi mwynhau'r diwrnod, a gobeithio wedi dysgu llawer am beryglon cyffuriau ac alcohol.

Cafodd plant y Cyfnod Sylfaen gyfle i fynd i sesiwn Sbri-Di-Ri. Bu'r plant yn mwynhau canu a dawnsio dan arweiniad Gwenda Owen. Cafwyd ymweliad gan Sali Mali a Mr Urdd. Canwyd pen-blwydd hapus i Mr Urdd gan ei fod yn dathlu!

Cynhaliwyd ein cwrdd diolchgarwch eleni yng Nghapel y Bryn Cwrtnewydd a braf oedd gweld cynifer o bobl wedi dod i gefnogi'r

plant. Cafwyd anerchiad pwrpasol

gan weinidog y capel, sef Wyn Thomas. Rhoddwyd y cynnyrch ffrwythau a llysiau a oedd yn addurno'r capel i gartref Maes y Felin. Hoffwn fel ysgol ddiolch o galon i'r Parchedig Wyn Thomas am ei amser, i aelodau Capel y Bryn am ddefnydd y capel ac i Mrs Anne Thomas am ei charedigrwydd wrth agor y capel i ni yn ystod yr ymarferion a'r gwasanaeth.

Yn ystod yr wythnosau diwethaf rydym wedi croesawu dwy fyfyrwraig i'n plith. Mae Miss Carys Tobias yn ei thrydedd flwyddyn ac yn ymgartrefu yn y dosbarth hŷn, tra

bod Miss Jade Crowe gyda phlant y Cyfnod Sylfaen. Gobeithio eich bod yn hapus yn ein plith.

Hoffwn hefyd longyfarch Mr Ward ar ei benodiad yn brifathro newydd Ysgol T. Llew Jones. Dyddiadau i'r cof – byddwn yn canu carolau o amgylch yr ardal ar y 7fed o Ragfyr ac yn cynnal ein Cyngerdd Nadolig ar y 14eg o Ragfyr.

Arwerthiant Seion

Cynhelir Arwerthiant Blynnyddol Seion ar brynhawn dydd Sadwrn, Tachwedd 26ain am 3:00y.p. Agorir gan Mrs Janice Davey, Aberarth. Croeso cynnes i bawb.

90 oed

Yn ystod y mis dathlodd Mr Danny Harries, Gelli ei ben-blwydd yn 90oed. Mae yn mwynhau iechyd da a dymunir yn dda iddo am flynyddoedd lawer.

Gwellhad Buan

Mae Mrs Catherine Jane Davies, Glennydd wedi cael llaw driniaeth yn Ysbyty Tywysog Phillip yn Llanelli yn ystod y mis. Gobeithiwn eich gweld gartref yn fuan.

Croeso

Croeso cynnes i ddeiliaid newydd Tŷ Capel y Bryn. Gobeithio y byddwch yn hapus yno.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Jean a Peter Griffiths, Fronddu ar ddod yn dad-uc a mam-gu unwaith yn rhagor, sef merch fach i Heiddwen a Siôn ym Mhencarreg.

Ffarmers

Cydymdeimlad

Yn rhifyn diwethaf Clonc, roeddem yn llongyfarch Arwyn a Lowri, Gât, Pumsaint ar enedigaeth eu mab bach, Osian, rai wythnosau ynghynt. Tristwch o'r mwyaf yn y rhifyn yma yw estyn ein cydymdeimlad i Lowri ac Osian wedi iddynt golli Arwyn mewn damwain angheuol yn y gwaith ddiwedd mis Medi, ac yntau ond yn ddeg ar hugain oed. Fel cymdogaeth, rydym yn cydymdeimlo yn fawr gyda Lowri, Osian, y teulu a'r cysylltiadau oll yn eu hiraeth a'u galar.

Gwellhad Buan

Yn ystod yr wythnosau diwethaf, bu'n rhaid i Poppy, merch fach Gareth a Kelly, Tregaron, dreulio cyfnod byr yn yr ysbyty yng Nghaerdydd yn derbyn triniaeth lawfeddygol. Da yw deall fod y driniaeth wedi bod yn llwyddiant a bod Poppy bellach wedi dychwelyd adref ac yn gwella. Dymuniadau gorau iddynt fel teulu.

Neuadd Bro Fana

Bydd Noson Rasio Parlwr yn Y Drovers Arms ar Nos Wener, yr 11eg o Dachwedd yng ngofal Gwynne Davies,

Godre'r Garth, Llanddewi Brefi. Llywyddion y noson fydd Gary a Siân Jones, Cwmann. Bydd darlith ar Dan Jenkins yn y Neuadd ar y 14eg o Dachwedd gan Alan Leech o Lanfair Clydogau. Croeso cynnes i'r ddau ddigwyddiad.

Cyngerdd Côr Cwmann

Soniwyd yn y rhifyn olaf am gyngerdd i'w gynnal gan Gôr Cwmann yn Neuadd Bro Fana ar y 1af o Hydref. Ar fyr rybudd, bu rhaid gohirio'r cyngerdd, ac ymddiheuir am hynny. Mae'r cyngerdd bellach wedi ei aildrefnu ar gyfer nos Sadwrn, yr 21ain o Ebrill 2012. Bydd y tocynnau gwreiddiol yn dal yn ddilys ar gyfer y dyddiad newydd, felly rhowch y tocynnau mewn man diogel a chofio ble! Yn ogystal â'r Côr yn canu, yr artistiaid gwadd fydd Aled Edwards ac Eleri Owen Edwards, Llanymddyfri; Kees Huysmans, Tregroes a Pharti Bechgyn Dyffryn Cothi. Llywydd y noson fydd Mrs Ceinwen Evans, Cwmann, a'r Arweinydd fydd Lyn Richards, Maesglas. Bydd elw'r coson yn cael ei rannu rhwng Ambiwylans Awyr Cymru ac Ymchwil Canser.

Sarn Helen



Ras 10K a hanner marathon yn Dale, Sir Benfro ac Aneurin James yn gorffen y 10K mewn 54 munud 08 eiliad, ac Allen Watts awr 42 munud. Glyn Price a enillodd y wobr gyntaf dynion 40 yn yr hanner marathon mewn awr 45 munud, Eric Rees awr 29 munud, Dawn Kenwright awr 45 munud ac yn ennill y categori menywod 55, a Gareth Jones awr 51 munud.

Ras 'Twin Peaks' Aberystwyth - 2il Glyn Price 47 munud 30 eiliad, 4ydd Michael Davies 48 munud 53 eiliad, 9fed Gethin Jones 51 munud 53eiliad, 10 Dylan Lewis 52 munud 35eiliad, 12 Eric Rees 52 munud 58 eiliad, 21 Huw Price 55 munud 27 eiliad, 22 Simon Hall 55 munud 40 eiliad, 23 Tony Hall 55 munud 48 eiliad, a 57 Aneurin James awr 8 munud 19 eiliad.

Roedd yn ddiwrnod braf ar gyfer Hanner Marathon Caerdydd a Dawn Kenwright yn gorffen mewn awr 38 munud 30 eiliad ac yn cipio'r ail wobr yng nghategori menywod 55, Caryl Davies awr 43 munud 54 eiliad ac yn rhedeg ei hamser gorau, a Steffan Jones awr 53 munud 38 eiliad, ac Aneurin Jones awr 57 munud 19 eiliad a'r ddau yn rhedeg hanner marathon am y tro cyntaf.

Hanner marathon Ron Skilton yn Llanwrtyd Wells - 10fed Tony Hall awr 47 munud 18 eiliad, 11eg Simon Hall awr 47 munud 36 eiliad a 37ain Ormond Williams 2 awr 14 munud 58 eiliad.

Cynhaliwyd cyfres gyntaf cynghrair traws gwlad Gwent ym Mhen y Bont ar Ogwr ac yn y ras merched nofis Grace Page yn gorffen yn safle 28 mewn 7 munud 59 eiliad, 41 Becca Ann Jones 8 munud 20 eiliad, merched dan 15 7fed Ffion Quan 21 munud 51 eiliad, 9fed Caitlin Page 21 munud 37 eiliad, bechgyn nofis, 25 Daniel Willoughby 7 munud 28 eiliad, bechgyn dan 13, 34 Thomas Willoughby 13 munud 22 eiliad. Hefyd, cystadlodd Elen Page, Helen Willoughby, Sue Jenkins, Mark Dunscombe a Richard Marks.

Cystadlodd Dawn Kenwright yn hanner marathon Llyn Efyrynwy mewn awr 37 munud 39 eiliad ac yn gyntaf menywod 55, a chystadlodd Steven Holmes yn hanner marathon y New Forest mewn awr 28 munud 10 eiliad.

Ras nesaf y clwb yw ras y mast yn Blaenwern Llanybydder, ddydd Sul 27ain o Dachwedd; ras y plant am 12.30 a'r oedolion am 1-00. Am fanylion pellach, ffoniwch Lyn Rees ar 01570 434244.



Tyngrug-Ganol,
Cwmsychpant,
Llanybydder.

Annwyl Ffrindiau,


Wel helo blant, sut ydych chi? Mae mis Tachwedd wedi cyrraedd a noson Guto Ffowc yn prysur agosau! Dwi wrth fy modd yn gweld y tân gwyllt ar noson Guto Ffowc ac mi fydda i a'm ffrindiau i gyd yn brysur iawn yn creu coelcerth fawr. Ydych chi'n hoffi gwylio tân gwyllt? Ble fyddwch chi'n mynd i wyllo tân gwyllt eleni? Ond cofiwch blant mae'n bwysig i chi fod yn ofalus ar Noson Guto Ffowc gan fod tân gwyllt yn gallu bod yn beryglus iawn

Bu llwyth ohonoch chi'n brysur iawn yn ystod y mis yn lliwio llun y plant yn y gwynt ac roedd ôl ymdrech fawr i'w weld ym mhob un o'r lluniau. Da iawn chi gyd - penigamp! Llongyfarchiadau i bawb wnaeth gystadlu o ddosbarth y babanod yn Ysgol Gynradd Llanwenog, ond yn enwedig i Tyler Walker, Dewi Lloyd, Sam Lewis a Jamie Jones. Hefyd llongyfarchiadau i Ellie Lona Gorman o Aberystwyth a Lauren McLeary o Lamed am luniau lliwgar a gwych. Yn agos iawn i'r brig y mis hwn mae Lisa Jenkins o Gwmsychpant a Gwenllian Llwyd o Gwmann ond ar y brig y tro hwn mae Sion O'Keefe o Ysgol Gynradd Llanwenog. Llongyfarchiadau mawr i bawb.

Ewch ati nawr i liwio llun Guto Ffowc! Danfonwch nhw ataf i cyn dydd Llun, Tachwedd 21ain.

Ta ta tan toc,

Lincyn Luncyn



Enillydd
y mis!

Sion
O'Keefe



Enw:

Oed:

Cyfeiriad:

Gwasanaeth Gwybodaeth Ceredigion

i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd

- Chwilio am ofal plant?
- Eisiau gwybod sut i fod yn ofalwr/wraig plant?
- Chwilio am weithgareddau plant a phobl ifanc, eisiau mwy o wybodaeth.

Ffôn/Phone:

01545 574187

E-bost/E-mail:

cis@ceredigion.gov.uk

Gwefan/Website:

<http://cis.ceredigion.gov.uk>

Cysylltwch â ni am fanylion
pellach



Neuadd Cyngor Ceredigion
County Council Offices,
Penmorfa,
Aberaeron,
Ceredigion,
SA46 0PA

Cartrefi'r Cwm Cyf

**GWAITH SAER
GWAITH TO
GWAITH GOSOD LLECHI
RHEOLI PROSIECTAU
GWAITH ADEILADU CYFLAWN
ESTYNIADAU
GWAITH BLOCIAU
GOSOD BRICS**



**CYFLENWI
CEGINAU AC
YSTAFELLOEDD
YMOLCHI
A'U GOSOD**

**FFENESTRI UPVC
FFENESTRI A DRYSAU
PREN CALED A MEDDAL**

07814 027849



Cant Oed



Miss Hannah Jones, gynt o fferm Cwmnant, Llanwenog a rhif 3 Ffynnonbedr, Llambled a ddathlodd ei phen-blwydd yn 100 oed ar 7fed Hydref 2011 ond sydd bellach yn preswyllo yng Nghartref Henllan.

Ffair Nadolig Llambled

Dydd Sadwrn 26 Tachwedd, 12-4pm

Stondinau • Creffttau • Siôn Corn

Croeso cynnes i bawb



PRIFYSGOL CYMRU
Y Drindod Dewi Sant
UNIVERSITY OF WALES
Trinity Saint David

Campws Llambled 01570 424796
heather.thomas@tsd.ac.uk

LAS Recycling Ltd



*Angen Sgip?
Diwydiannol, Masnachol
neu i'r cartref.
Sgip i bob pwrpas
Rhowch alwad i ni
ar 01570 421421*

**Gwasanaeth Casglu
Gwastraff Masnachol
Newydd**

*Am wasanaeth
dibynadwy a chost
effeithiol ar gyfer eich
holl anghenion gwastraff
cysylltwch â ni ar:
01570 421421*

**Gwasanaeth Bin ar
Olwynion Newydd
(1100L, 660L a 240L)**

**Ffordd Tregaron
Llanbedr Pont Steffan
Ceredigion
SA48 8LT**

01570 421421



CYFRI

CYNGHORWYR ARIANNOL ANNIBYNNOL
INDEPENDENT FINANCIAL ADVISERS

23 Stryd y Coleg, Llanbedr Pont Steffan, SA48 7DY

T 01570 423823 E post@cyfri.co.uk W www.cyfri.co.uk

Ydych angen cymorth i gael eich materion ariannol mewn trefn?
Am gyngor diduedd annibynnol ar amryw o faterion ariannol, yn cynnwys:

**Buddsoddiadau, Pensiynau, Treth Etifeddiaeth, Yswiriant Bywyd,
Yswiriant salwch difrifol a diogelwch incwm.**

Gary Davies BSc(Hons), Cert PFS

Beca Russell BSc(Hons), MSc(Hons), Cert PFS, Cert CII(MP)

Cysylltwch â ni am wasanaeth proffesiynol y gallwch ymddiried ynddo.

Mae'n bosib i werth eich buddsoddiadau a'ch pensiwn gostwng yn ogystal â chynyddu. Nid ydych yn sicrhau gael eich buddsoddiad gwreiddiol yn ôl. Os nad ydych yn cadw'lan gyda'ch ad-daliadau mae'n bosib i chi dderbyn gorchymyn aifeddiannu am eich cartref.

Gorsaf
Brawf
MOT

GAREJ BRONDEIFI



Heol Llanfair Road, Llambled, SA48 8JX

- * Gwasanaeth trwsio ac atgyweirio
- * Teiars am brisiau cystadleuol
- * Ceir newydd ac ail law ar werth
- * Batris * Brecs * Egsost
- * Gorsaf Brawf MOT Ceir a Beiciau Modur



Peiriant Golchi Ceir Poeth

01570 422305

07974 422 305

.....Mwy o bobl leol yn cyfrannu'n hael.....



Glyn Lloyd Jones, Y Felin Lif, Llanbed gyda Ms Lyn Jenkins, Rheolwr Cartref Gofal, Allt y Mynydd, Llanbydder adeg cyflwyno mainc er cof am Mrs Dilys Ann Jones a fu farw yn Allt y Mynydd llynedd. Prynwyd y fainc â'r arian a roddwyd er cof amdani.



Aelodau Pwyllgor Ffair Ram yn cyflwyno sic o £840 i John a June James ar ran Apêl Elain. Yn y rhes flaen mae Eirios Jones Cadeirydd, Danny Davies ac Eiddig Jones.



Gwasanaeth dathlu

Cynhaliwyd gwasanaeth bendithiol iawn o'r Cymun Bendigaid yn eglwys Sant Iago ar nos Fawrth, Hydref 18fed, sef dydd Gŵyl Sant Luc a daeth nifer dda iawn ynghyd dan arweiniad yr Hybarch Ddr. William Strange. Croesawodd pawb yn gynnes iawn i'r gwasanaeth. Roedd hefyd yn achlysur arbennig i ddathlu 60 deg mlynedd ers yr ordeiniwyd y Parchedig Canon Wynzie Richards yn yr eglwys gadeiriol yn Nhŷ Ddewi ar ddydd Sant Luc a braf oedd ei weld yn cynorthwyo'r ficer gyda'r Cymun ac yn cymryd rhan yn y gwasanaeth. Cafwyd neges bwrpasol iawn ganddo gan gymryd ei destun o 2 Timotheus, pennod 4, adnodau 5-11, sef yr Epistol am ddydd Sant Luc. Hefyd, cawsom hanes ei daith yn offeiriad dros 60 deg mlynedd â'i gymar Mair wrth ei ochr. Yn ystod y gwasanaeth darllenwyd cerdd gan Rosa Lloyd o waith Richard Marke i longyfarch y Canon ar yr achlysur arbennig. Yna, cyflwynodd Mr. Danny Davies gopi o'r gerdd wedi ei fframio i'r Canon a chyflwynodd Mr. Graham Evans fasged o flodau'r hydref i Mair. Estynnodd y ficer longyfarchiadau cynnes iawn iddynt a diolch am eu gwasanaeth clodwiw ar hyd y blynyddoedd – 'Da was, da a ffyddlon'. Dewiswyd yr emynau gan y Canon Wynzie Richards a Mair Richards. Yr organyddes oedd Mrs. Ceinwen Evans. Ar ôl y gwasanaeth bu pawb yn cymdeithasu ac yn mwynhau cwpanaid o de a darn o'r deisen ddathlu. Diolchodd y ficer i bawb am eu presenoldeb ac ymatebodd Canon Wynzie gan estyn diolch i'r ficer ac i bawb am eu caredigrwydd.

Clwb Hoci Llanbydder



Dyma lun o'r merched yn ymarfer am y tro cyntaf ar y maes astro bob tywydd newydd yn Llanbed ddechrau mis Medi.

Erbyn hyn, mae'r tîm wedi chwarae eu gêm Gyngdrair gartref gyntaf erioed ar yr astro gan ennill o 3 gôl i 1 yn erbyn Castell Newydd Emlyn. Sgorwyr y goliau oedd Beca Russell, y capten, a Gwenllian Jones a Tracy Evans, yr is gapten. Chwaraewraig hŷn y gêm oedd y flaenwarig Hannah Thomas a'r chwaraewraig iau oedd Carwen Richards. Mae'r merched yn ymarfer bob nos Fercher ar yr astro yn Llanbed.

Mae croeso i aelodau newydd o bob oedran, gan fod timau dan 15 a 13 oed gan y clwb bellach.

Os am ragor o wybodaeth, cysyllter â'r Capten Beca Russell ar 07967956394 neu Heledd Tomos ar 07969124056.

Plant Mewn Angen 2011

Y Mans, Stryd Newydd, Llanbed Annwyl Ddarllenydd,

Gair i'ch atgoffa bod Diwrnod Apêl Plant mewn Angen eleni ar ddydd Gwener, Tachwedd 18fed. Fel arfer, byddwn yng Nghapel Sant Thomas ar y Cwmins yn Llanbed o 9 o'r gloch y bore tan 6 yr hwyr i dderbyn eich cyfraniadau.

Apeliwn arnoch i wneud pob ymdrech i godi arian tuag at yr achos teilwng hwn. Mae'r angen eleni yn fwy nag erioed. Diolch am eich cefnogaeth ar hyd y blynyddoedd. Diolch hefyd i'r gweithwyr a'r gwirfoddolwyr sy'n rhoi eu hamser o fewn y cylch ac yn y ganolfan ar y diwrnod. Os nad yw'n gyfleus i chi ddod i Lanbed ar y diwrnod, cofiwch y byddwn yn barod i dderbyn eich cyfraniad cyn neu wedi'r dyddiad yn y Mans.

Yn 2010, codwyd gennym £23,366.88 at yr ymgyrch
Diolch ymlaen llaw
Beti a Goronwy
(ar ran Plant mewn Angen)